



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government


Y SAFONAU GOFYNNOL CENEDLAETHOL AR GYFER YSGOLION ARBENNIG PRESWYL

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Datganiad o'r safonau gofynnol cenedlaethol sy'n berthnasol i

- i) ysgolion arbennig preswyl,
- ii) ysgolion preswyl, a
- iii) colegau addysg pellach sy'n derbyn myfyrwyr o dan 18 oed

a wnaed gan Weinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan y pwerau a roddwyd iddi o dan adran 107 o Ddeddf Safonau Gofal 2000



Y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
9 Chwefror 2003


Mae'r datganiad yn berthnasol i ysgolion arbennig preswyl, ysgolion preswyl a cholegau addysg pellach sy'n derbyn myfyrwyr o dan 18 oed o 1 Chwefror 2003.

Amgaeir hefyd gyflwyniad i'r tair set o safonau er mwyn egluro'r broses.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ysgolion Arbennig Preswyl

Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol



Cynnwys

	Tudalen
Rhagarweiniad	1
Datganiad o ddiben yr ysgol	
Safon 1 Datganiad o ddiben yr ysgol	3
Hawliau plant	
Safon 2 Ymgynghori	5
Safon 3 Preifatrwydd a chyfrinachedd	6
Safon 4 Gweithdrefnau cwyno a chynrychioli	8
Amddiffyn plant	
Safon 5 Gweithdrefnau a hyfforddiant amddiffyn plant	11
Safon 6 Mynd i'r afael â bwllo	13
Safon 7 Hysbysiadau	14
Safon 8 Absenoldeb plentyn heb awdurdod	15
Gofal a rheolaeth	
Safon 9 Y berthynas â phlant	17
Safon 10 Mesurau rheoli, disgyblu ac atal	18
Ansawdd gofal	
Safon 11 Derbyn ac ymadael	22
Safon 12 Hamdden a gweithgareddau	24
Safon 13 Cyfraniad y ddarpariaeth breswyl at addysg	26
Safon 14 Iechyd	27
Safon 15 Darparu a pharatoi prydu	31
Safon 16 Dillad personol, angenrheidiau personol ac arian personol	33
Cynllunio ar gyfer gofal	
Safon 17 Cynllunio gofal a'r cynllun lleoli	34
Safon 18 Ffeiliau achos ar blant unigol	36
Safon 19 Cofnodion cyffredinol yr ysgol	38
Safon 20 Cysylltiad	40
Safon 21 Paratoi at annibyniaeth	41
Safon 22 Cymorth i blant unigol	42
Y safle	
Safon 23 Lleoliad, dyluniad, maint	44
Safon 24 Llety	46
Safon 25 Ystafelloedd ymolchi a thai bach	49
Safon 26 Iechyd, diogelwch a sicrwydd	50
Staffio	
Safon 27 Fetio Staff ac ymwelwyr	52
Safon 28 Digonolrwydd y trefniadau staffio	54
Safon 29 Hyfforddi a datblygu'r staff	56
Safon 30 Goruchwyliaeth a chymorth i'r staff	57

Trefniadaeth a rheolaeth

Safon 31 Trefniadau staffio	59
Safon 32 Rheoli'r busnes a monitro mewnol	61
Safon 33 Monitro ar ran y person sy'n rhedeg yr ysgol	63
Atodiad 1: Gweithdrefnau ar gyfer ymateb i honiadau neu amheuan camdriniaeth	64
Atodiad 2: Rhaglenni hyfforddi i'r staff	65
Atodiad 3: Polisiâu sydd i fod ar gael i'r staff gyda gweithdrefnau a chanllawiau fel y bo'n briodol	66
Geirfa	67

RHAGARWEINIAD

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl yn cael eu cyhoeddi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 87C(1) o Ddeddf Plant 1989, fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'r datganiad yn gymwys i ysgolion arbennig preswyl.

Mae pob safon unigol wedi'i rhifo ac mae'n cynnwys y pennawd â rhif a'r paragraffau â rhifau. O ran esboniad yn unig, cyn pob safon gwelir teitl ac esboniad o'r canlyniad arfaethedig ar gyfer y safon honno.

Sut mae'r Safonau'n gweithio

Mae'r safonau i gael eu defnyddio gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru pan fydd yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros ddarpariaeth les ysgolion preswyl, gan gynnwys ysgolion arbennig preswyl. Bwriedir iddynt ddiogelu a hybu lles y plant y darperir llety ar eu cyfer gan ysgol arbennig breswyl. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cadw golwg ar y safonau, a gall gyhoeddi safonau diwygiedig fel y bo'n briodol.

Mae'r safonau wedi'u dylunio i gael eu defnyddio wrth arolygu unrhyw ysgol sy'n darparu llety ar gyfer unrhyw blentyn os yw hi naill ai:

- a) yn ysgol arbennig yn unol ag adrannau 337 a 347(1) o Ddeddf Addysg 1996; neu
- b) yn ysgol annibynnol nad yw'n perthyn o fewn (a) ond sy'n anelu yn unig neu yn bennaf at ddarparu lleoedd, gyda chydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol, ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sydd o dan ofal cyhoeddus.

Ceir safonau gofynnol cenedlaethol ar wahân ar gyfer pob ysgol arall sy'n darparu llety i blant. Mae'n ofynnol i ysgolion preswyl sy'n lletya unrhyw blentyn, neu'n trefnu llety i unrhyw blentyn am fwy na 295 o ddyddiau'r flwyddyn, neu sy'n bwriadu gwneud hynny, gofrestru fel cartrefi plant gydag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Wedyn mae ysgolion o'r fath yn dod o dan Reoliadau Cartrefi Plant 2001 a safonau gofynnol cenedlaethol cartrefi plant yn hytrach na'r ddogfen hon.

Rhan yn unig (ond rhan bwysig) yw agweddau preswyl/gofal o ddarpariaeth ehangach, sef lleoliad addysgol yn y bôn sy'n bodoli er mwyn i anghenion disgyblion fel y maent wedi'u datgan yn eu datganiadau yn cael eu diwallu. Ysgol yw'r ysgol arbennig yn gyntaf oll, ac fel ysgol y bydd yn ymateb i ddeddfwriaeth a chanllawiau.

Mae yna lawer o wahanol resymau pam y mae disgyblion mewn ysgol arbennig breswyl. Mae rhai yn preswyl yno am fod hynny'n rhan hanfodol o'u rhaglen addysgol, mae rhai yn preswyl yno oherwydd anawsterau'r teulu a'r cartref ac mae eraill y preswyl yno am fod y disgyblion yn byw yn rhy bell o'r ysgol i deithio yn ddyddiol. Mewn ysgolion preswyl sydd â nifer o ddisgyblion dydd ac eraill lle mae'r preswylwyr yn y lleiafrif, fe fydd angen rheolaeth ofalus ar y llety ac ar y perthnasoedd rhwng grwpiau o ddisgyblion.

1 Dylid cymryd bod pob cyfeiriad at arolygiadau ar ysgolion gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, yn cynnwys arolygiadau gan unrhyw arolygydd arall a benodir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Adran 87A o Ddeddf Plant 1989, i gynnal arolygiadau ysgolion preswyl.

2. Ysgol sydd â disgyblion yn preswyl yno am ran neu'r cyfan o'r tymor ysgol yw ysgol breswyl.

Drwy gyfeirio at y Safonau hyn y bydd Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, neu unrhyw arolygydd arall a benodir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 87A o Ddeddf Plant 1989 i gynnal arolygiadau mewn ysgolion preswyl, yn asesu a yw'r ysgol yn diogelu ac yn hybu lles y plant y mae llety'n cael ei ddarparu neu ei drefnu ar eu cyfer yn foddhaol neu beidio. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cyfeiri at y safonau hyn yn ogystal ag at fframwaith arolygu perthnasol Estyn mewn unrhyw gamau y gallai eu cymryd yn erbyn ysgol arbennig breswyl annibynnol neu ysgol arbennig breswyl na chynhelir mohoni mewn perthynas â methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd i ddiogelu neu i hybu lles. Bydd yr awdurdodau lleol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn cymryd y safonau gofynnol cenedlaethol i ystyriaeth mewn unrhyw gamau gorfodi mewn perthynas ag unrhyw fethiant i ddiogelu neu i hybu lles disgyblion preswyl sy'n cael eu lletya mewn unrhyw ysgol arbennig breswyl a gynhelir. Mae gan gyrff arolygu eraill, megis Estyn, gyfrifoldeb hefyd dros arolygu'r gofal a ddarperir mewn ysgolion arbennig preswyl.

Ystyr safonau gofynnol yw mai dyma'r safonau isaf y disgwylir i bob ysgol eu cyrraedd wrth ddiogelu a hybu lles disgyblion preswyl. Bydd llawer o ysgolion eisoes wedi cyrraedd y safonau hyn neu yn uwch.

Caiff yr ysgol ei harolygu yn erbyn y safonau er mwyn penderfynu a yw'n cydymffurfio â'i rhwymedigaethau cyfreithiol i ddiogelu a hybu lles disgyblion sy'n preswyl yno. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, rôl Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yw ystyried i ba raddau y mae ysgol yn hybu ac yn diogelu lles ei disgyblion preswyl, yn hytrach na chanolbwyntio ar strwythurau a systemau er eu mwyn eu hunain. Bydd sylw'n cael ei roi i bolisi derbyn yr ysgol a'i Datganiad o Ddiben ac i sylwadau'r rhai sydd wedi dewis yr ysgol i'w plentyn.

Wrth arolygu yn ôl y safonau hyn, bydd Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn dilyn methodoleg arolygu a fformat adrodd cyson ledled y wlad.

Safleoedd Ysgolion

Mae rhai o'r safonau yn y ddogfen hon, yn enwedig ynghylch safleoedd a llety i ddisgyblion, yn uwch na'r safonau a nodwyd yn Rheoliadau Addysg (Safleoedd Ysgolion) 1999. Y rheswm am hyn yw natur wahanol sefydliadau ysgolion arbennig preswyl ac anghenion penodol y plant unigol sy'n cael eu lletya yno.

Gwybodaeth Bellach

Cyfrifoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r safonau gofynnol cenedlaethol hyn, ond cyfrifoldeb Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yw eu cymhwyso at sefydliadau unigol. Gellir cysylltu ag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn y lle cyntaf ynghylch sut mae'r safonau'n cael eu cymhwyso o dan amgylchiadau penodol. Gall ymholiadau eraill, er enghraifft am y polisiau y tu ôl i'r safonau, gael eu cyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y cyfeiriad e-bost hwn:

www.childrenfirstwales.gov.uk

1. Datganiad o Ddiben yr Ysgol

Datganiad o ddiben yr ysgol

Y CANLYNIAD

Mae'r plant, y rhieni, y staff a'r awdurdodau lleoli yn cael cyfle i weld datganiad clir o egwyddorion ac arferion gofal yr ysgol ar gyfer disgyblion preswyl.

SAFON 1

- 1.1 Mae gan yr ysgol Ddatganiad o Ddiben ysgrifenedig, sy'n disgrifio'n gywir yr hyn y mae'r ysgol yn anelu at ei wneud ar gyfer y plant y mae'n eu lletya, ac ym mha fodd y mae'r gofal yn cael ei ddarparu. Gall y Datganiad fod ar ffurf dogfennau eraill, ee y Llythyr Trefniadau a Gymeradwywyd a phrosbectws yr ysgol, y mae'n ofynnol iddynt gynnwys gwybodaeth benodol.**
- 1.2** Mae'r datganiad yn disgrifio diben cyffredinol yr ysgol ac yn disgrifio unrhyw fodel damcaniaethol neu therapiwtig sy'n sail i arferion yr ysgol, ethos ac athroniaeth yr ysgol, a braslun o unrhyw ddarpariaeth sydd gan yr ysgol ar gyfer plant anabl.
- 1.3** O roi sylw i'r wybodaeth a roddir ym mhrosbectws yr ysgol, mae'r datganiad yn rhoi enw'r aelod staff sydd wedi'i ddynodi ar gyfer amddiffyn plant ac enwau a chymwysterau proffesiynol perthnasol yr holl staff. Mae'r datganiad hefyd yn disgrifio:
- yr amrediad o anghenion disgyblion y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer,
 - ei meini prawf derbyn.
 - y niferoedd a gymeradwywyd ar gyfer disgyblion dydd a disgyblion preswyl, yr amrediad oed a'r rhyw sy'n cael eu lletya,
 - unrhyw agweddau crefyddol neu ddiwylliannol arbennig sydd gan yr ysgol,
 - unrhyw nodweddion arbennig sydd gan yr ysgol.
- 1.4** Mae'r datganiad ar ffurf a all gael ei deall gan bersonél awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am drefnu lleoliadau, staff, plant ac unrhyw riant neu berson â chyfrifoldeb riant dros blentyn. Os nad oes modd i blant a/neu eu rhieni neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb riant ddarllen y datganiad, mae'r ysgol, cyn belled ag y gellir, yn darparu'r wybodaeth mewn fformat arall sy'n fwy addas, megis ar dâp, mewn Braille neu iaith arwyddion, eu mae'n darparu canllaw plant a/neu rieni.
- 1.5** Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlweyrchu yn deg yr ystod o anghenion y mae'r ysgol yn gallu gwneud darpariaeth ar eu cyfer a mae'r ysgol yn derbyn disgyblion sydd ag anghenion a aseswyd sydd o fewn yr ystod yna yn unig.

- 1.6** Mae'n glir bod y Datganiad o Ddiben, a'r polisiau a'r gweithdrefnau sy'n cael eu sefydlu yn unol ag ef, yn gymwys i agweddau preswyllo ac addysgu bywyd plentyn sy'n cael ei letya yn yr ysgol, ac nad ydynt yn creu gwrthdaro rhwng swyddogaethau 'preswyl' a 'dydd' neu 'addysgu' a 'gofal' yr ysgol ond yn nodi sut y bydd pawb sy'n gweithio yn yr ysgol yn creu continiwwm o ofal i'r plant.
- 1.7** Mae'r corff llywodraethu neu berchennog arall (unigolyn neu gorff) sy'n rhedeg yr ysgol yn cymeradwyo Datganiad o Ddiben yr ysgol, yn ei adolygu a'i ddiweddarau o leiaf bob blwyddyn, ac yn ei addasu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchiad rhesymol o'r gwir arferion preswyllo a'r gwir arferion gofal sydd ar gael yn yr ysgol ar hyn o bryd.
- 1.8** Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth i rieni pob plentyn sy'n preswyllo yn yr ysgol (oni fyddai hynny yn anymarferol neu'n groes i anghenion lles y plentyn), yn crynhoi polisiau ac arferion yr ysgol ynghylch amddiffyn plant, atal bwlio, disgyblu, cwynion, iechyd a bugeilio. Mae'r ysgol yn darparu rhifau ffôn a chyfeiriadau ar gyfer cysylltu â'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol os yw'r rhieni am gysylltu'n uniongyrchol â hwy mewn perthynas ag amddiffyn plant, a rhifau ffôn a chyfeiriadau Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (neu arolygiaeth arall a gymeradwywyd y mae gan yr ysgol gytundeb arolygu gyda hi) mewn perthynas â materion eraill.

2. Hawliau Plant

Ymgynghori

Y CANLYNIAD

Mae'r plant yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i wneud penderfyniadau am eu bywydau ac i ddylanwadu ar y ffordd y mae'r ysgol yn cael ei rhedeg. Ni ddylid rhagdybio bod yr un plentyn yn methu â mynegi barn.

SAFON 2

- 2.1 Mae barn y plant, a barn eu teuluoedd neu'r bobl arwyddocaol eraill iddynt, yn cael ei cheisio ynghylch penderfyniadau allweddol sy'n debyg o effeithio ar eu bywyd beunyddiol a'u dyfodol. Mae adborth yn cael ei roi ar ôl ymgynghori.**
- 2.2** Mae polisiâu (sy'n cael eu rhoi ar waith mewn gwirionedd), canllawiau a hyfforddiant ynghylch ymgynghori â phlant, eu teuluoedd ac eraill sy'n arwyddocaol iddynt a'u cynnwys, ar gael i'r staff ac yn cael eu hategu gan dîm rheoli'r ysgol.
- 2.3** Mae'r staff yn cymryd i ystyriaeth gefndir crefyddol, hiliol, diwylliannol ac ieithyddol plant a'u teuluoedd, ac yn gwybod pa bryd i ofyn am gyngor neu gymorth.
- 2.4** Eir ati yn egniol i ofyn barn a sylwadau'r plant a'u cymryd i ystyriaeth wrth i benderfyniadau gael eu gwneud sy'n effeithio ar eu lles. Y ffactor hollbwysig yw'r hyn sydd er lles gorau y plentyn, ond os oes rheswm llethol dros beidio â gwireddu dymuniadau plentyn, mae'r rhesymau'n cael eu rhoi i'r plentyn.
- 2.5** Mae'r ysgol yn darparu dulliau addas a mynych i unrhyw blentyn fynegi ei ddymuniadau a'i deimladau ynghylch ei ofal a'i driniaeth yn yr ysgol, gan ddefnyddio'i ddull cyfathrebu dewisol. Mae hyn yn cynnwys cael oedolion gwahanol ar gael sy'n deall dull cyfathrebu dewisol y plentyn.
- 2.6** Nid yw'r ffordd y mae'r ysgol yn gweithredu yn bychanu annibyniaeth unrhyw blentyn yn ddiangen nac fel rhan o drefn, na'i gyfle i wneud dewisiadau bob dydd.
- 2.7** Mae camau gweithredol yn cael eu cymryd i alluogi plant ag unrhyw anabledd a/neu AAA neu nam i wneud dewisiadau bob dydd ac i gynyddu eu cyfleoedd ar gyfer annibyniaeth gymaint â phosibl.
- 2.8** Mae pob plentyn, cyn belled ag y bo'n ymarferol, yn gallu mynd i wasanaethau eu hargyhoeddiad crefyddol, cael eu hyfforddi ynddo, a chadw unrhyw un o'i ofynion (gan gynnwys gwisg, deiet neu fel arall).

Hawliau Plant - Preifatrwydd a chyfrinachedd

Y CANLYNIAD

Mae preifatrwydd plant yn cael ei barchu a chaiff gwybodaeth amdanynt ei thrin yn gyfrinachol.

SAFON 3

- 3.1 Mae'r ysgol a'r staff yn parhau dymuniad plentyn i gael preifatrwydd a chyfrinachedd. i'r graddau y mae hynny'n gyson â medrau magu plant da a'r angen i amddiffyn y plentyn.**
- 3.2** Mae'r ysgol yn darparu canllawiau gweithdrefnol i'r staff ar breifatrwydd a chyfrinachedd, a'r canllawiau hynny yn ymdrin â'r canlynol:
- i. cyfle gan y staff ac eraill i weld cofnodion achosion;
 - ii. trosglwyddo gwybodaeth sydd â goblygiadau ar gyfer amddiffyn plant;
 - iii. manylion ymarferol am sut i fynd i mewn i ystafelloedd y plant, ystafelloedd ymolchi a thoiledau;
 - iv. trefniadau ar gyfer y gawod a'r baddon a defnyddio'r tŷ bach;
 - v. materion personol megis y mislif;
 - vi. golchi dillad;
 - vii. gofal personol agos ar gyfer plant anabl gan gynnwys rhoi meddyginiaeth a gweithdrefnau clinigol ymyrrol lle bo'n gymwys.
- 3.3** Mae cofnodion y plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac mae'r cynnwys yn aros yn gyfrinachol gan gael ei rannu ag unigolion sydd â hawl i'w weld yn unig neu ag unigolion y mae arnynt angen cael gwybod ei gynnwys er mwyn diogelu a hybu lles y plentyn.
- 3.4** Mae'r staff yn gwybod sut i ymdrin â gwybodaeth sy'n cael ei rhoi iddynt yn gyfrinachol a'i rhannu pan fydd hynny'n angenrheidiol er mwyn amddiffyn plant.
- 3.5** Yn ddarostyngedig i 3.6 isod, gall y plant wneud a derbyn galwadau ffôn yn breifat heb ganiatâd y staff. Gall y plant ysgrifennu a derbyn llythyrau heb i'r rheiny gael eu darllen gan y staff a heb ganiatâd y staff. Os oes cyfle i'r plant ddefnyddio cyfleusterau post electronig a/neu bost llais yn y cartref, gallant anfon a derbyn negeseuon drwy'r cyfryngau hyn heb i'r staff eu darllen. Os oes angen helpu neu oruchwylio plentyn, mae'r staff yn galluogi'r plant i ddefnyddio'r ffôn, y ffôn testun, yr e-bost neu'r cyfleusterau post llais ac nid ydynt yn ymyrryd â phreifatrwydd os oes modd. Mae gwybodaeth ar gael am wasanaethau (e.e. llinellau cymorth) y gallai'r plant ddymuno ymgynghori â hwy yn gyfrinachol (e.e. eu harddangos wrth y ffôn) mewn fformat addas (ee Braille, print bras neu ar dâp). Mae plant yn cael cymorth ychwanegol i ddefnyddio cynorthwyon cyfathrebu os oes eu hangen.
- 3.6** Os oes yna sail eglur bod lles plentyn mewn perygl drwy ei ddefnydd ar y ffôn, y ffôn testun, y post neu ddulliau cyfathrebu electronig (megis bod

plentyn mewn perygl o gael ei gaffael ar gyfer puteinio), dylai'r staff ymyrryd mewn modd priodol i amddiffyn lles y plentyn. Rhaid i unrhyw gyfyngiadau ar gyfathrebu gan blentyn sy'n cael eu gosod gan awdurdod lleoli naill ai fod wedi'u cytuno ymlaen llaw gan awdurdod lleoli'r plentyn, neu os nad yw hynny'n ymarferol, gael eu hysbysu'n ddi-oed i awdurdod lleoli'r plentyn, a rhaid i barhad a hyd y cyfyngiadau hynny gael eu cytuno gyda'r awdurdod hwnnw. Yn achos plentyn sy'n cael ei leoli gan riant, dylai'r ysgol gytuno ynghylch parhad a hyd unrhyw gyfyngiad gyda'r rhiant hwnnw. Rhaid i unrhyw gytundeb o'r fath gael ei gofnodi mewn ysgriflen a'i osod ar ffeil y plentyn.

- 3.7** Mae'r ysgol yn darparu lle i'r plant gyfarfod yn breifat gyda rhieni ac eraill.
- 3.8** Mae'r staff yn sensitif i faterion gender yn arbennig felly wrth ymdrin â phlant o'r rhyw arall.
- 3.9** Nid yw goruchwyliaeth y staff ar y plant yn ymyrryd yn amhriodol nac mewn ffordd sy'n codi cywilydd ar y plant.
- 3.10** Os yw'r ysgol yn lletya plant y mae arnynt angen cymorth y staff gyda gofal agos neu weithrediadau'r corff, mae'r holl staff sydd ynglyn â hyn wedi cael hyfforddiant priodol a chanllawiau ysgrifenedig clir a phriodol ynghylch arferion wrth ddarparu'r cymorth hwnnw, a'r rheiny yn cael eu dilyn yn ymarferol. Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â'r ffiniau sydd i'w cadw (gan gynnwys rhoi gofal o'r fath i blant o'r rhyw arall) a'r gofyniad i alluogi'r plentyn o dan sylw, os yw'n ymarferol, i fynegi dewis ac i roi cydsyniad ynghylch y gofal personol agos a roddir iddynt. Mae'r staff sy'n ymwneud â hyn wedi cael unrhyw hyfforddiant angenrheidiol hefyd ar gyfer defnyddio unrhyw gyfarpar sy'n ymwneud â gofalu am y plentyn (e.e. lifftiau neu declynnau codi), ac maent yn hyfedr o ran eu gweithredu'n ddiogel gyda'r plentyn o dan sylw.
- 3.11** Mae'r ysgol yn darparu canllawiau, sydd ar gael i'r staff ac i'r plant, ar ba bryd y gall fod angen chwilio eiddo'r plentyn. Dim ond yn unol â'r canllawiau, a dim ond ar sail eglur, sy'n cael ei hesbonio i'r plentyn o dan sylw y mae eiddo'r plant yn cael ei chwilio, a hynny lle byddai methu â chwilio yn achosi perygl i les y plentyn neu i les pobl eraill. Mae pob chwiliad o'r fath yn cael ei gofnodi, gan ddangos yr amser a'r dyddiad a'r rheswm dros y chwiliad, gan nodi a ddaethpwyd o hyd i unrhyw beth, pwy fu'n chwilio a phwy oedd yn bresennol ar y pryd, a fydd yn cynnwys y plentyn os oes modd. Dylai cofnodion o'r fath gael eu llofnodi gan bawb a sy'n bresennol, gan gynnwys y plentyn os oes modd.

Hawliau Plant - Gweithdrefnau cwyno a chynrychioli

Y CANLYNIAD

Caiff cŵynion y plant sylw yn ddi-oed a chaiff y plant wybodaeth gyson am y cynnydd sy'n cael ei wneud wrth ystyried y cŵynion hynny.

SAFON 4

- 4.1 Mae'r plant yn gwybod sut i gwyno ac yn teimlo y gallant gwyno os ydynt yn anfodlon ar unrhyw agwedd ar fyw yn yr ysgol, ac yn teimlo'n hyderus y caiff unrhyw gŵyn sylw o ddifrif ac yn ddi-oed.**
- 4.2** Mae'r plant, ac os yw'n briodol eu teuluoedd, eu pobl arwyddocaol eraill ac ymwelwyr annibynnol, yn cael gwybodaeth am sut i gwyno gan gynnwys sut i gael mynediad at eiriolydd annibynnol a phryd y bydd person felly yn ymweld â'r sefydliad nesaf, os yw hynny'n hysbys.
- 4.3** Mae gan yr ysgol bolisi ysgrifenedig a chanllawiau gweithdrefnol ynghylch ystyried sylwadau a cŵynion ac ymateb iddynt yn unol â gofynion y gyfraith a chanllawiau perthnasol y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r polisi yn cynnwys yn glir yr hawl a'r dull i blant ddefnyddio gweithdrefn gŵynion eu hawdurdod lleoli os ydynt wedi'u lleoli gan awdurdod lleoli.

Mae gweithdrefn gŵynion yr ysgol:

- 4.3.1** yn galluogi'r plant, y staff, aelodau'r teulu ac eraill sy'n ymwneud â phlant yr ysgol y tu allan i'r ysgol i wneud cŵynion mawr a mân;
- 4.3.2** yn gwahardd unrhyw berson sy'n destun cŵyn rhag cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros ystyried y gŵyn neu ymateb iddi;
- 4.3.3** yn gwahardd yn bendant unrhyw ddial yn erbyn plant neu eraill sy'n cwyno;
- 4.3.4** yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymdrechion anffurfiol, megis negodi, cymrodeddu a chyfryngu, i ddatrys y gŵyn ac i'r plentyn ac unrhyw achwynydd fynd â'r mater ymhellach os nad ydynt yn fodlon ar y dull anffurfiol arfaethedig o'i ddatrys;
- 4.3.5** yn darparu'n briodol ar gyfer ymdrin ag unrhyw gŵyn sy'n cael ei gwneud yn erbyn Pennaeth yr ysgol;
- 4.3.6** yn ei gwneud yn ofynnol bod cofnod ysgrifenedig yn cael ei wneud a'i gadw am y canlynol:
- person sy'n gwneud y gŵyn,
 - dyddiad y gŵyn,
 - natur y gŵyn,

- unrhyw gamau a gymerwyd, a
- chanlyniad y gŵyn;

4.3.7 yn ymatal rhag cyfyngu ar y materion y cwynir amdanynt;

4.3.8 yn darparu i faterion perthnasol gael eu cyfeirio'n ddi-oed i fan arall, gan gynnwys yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol yn achos materion amddiffyn plant;

4.3.9 yn hygyrch i blant anabl ar ffurf sy'n addas i blant ag anghenion dysgu ac mewn modd sy'n addas ar gyfer dull cyfathrebu dewisol plentyn;

4.3.10 yn darparu os oes modd i'r plant fynd â chŵynion at berson y tu allan i'r ysgol. Dylai unrhyw berson o'r fath fod wedi'u gwirio drwy'gyfrwng yr un gwiriadau recriwtio staff ag sy'n angenrheidiol ar gyfer staff yr ysgol;

4.3.11 yn galluogi pobl heblaw'r plentyn i wneud cŵyn ar ran y plentyn, ar yr amod bod y plentyn yn cydsynio â hynny;

4.3.12 yn manylu ar sut y caiff cŵynion am y plant eu rheoli (ee cŵynion gan siopwyr lleol, cymdogion, yr Heddlu).

4.4 Mae'r staff yn cael hyfforddiant yn y weithdrefn gŵynion, a hwnnw'n ymdrin â'r meysydd canlynol:

4.4.1 beth yw cŵyn;

4.4.2 beth yw'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chŵyn yn anffurfiol yn yr ysgol a sut y caiff ei chofnodi;

4.4.3 i bwy y gwneir cŵyn o'r tu allan i'r ysgol;

4.4.4 pa weithdrefn sydd i'w dilyn os na chaiff cŵyn ei datrys yn brydlon drwy ddulliau anffurfiol, gan gynnwys pwy y dylid ei hysbysu a chadw cofnodion;

4.4.5 sut y gellir helpu'r plentyn wrth wneud cŵyn.

4.5 Mae'r ysgol yn rhoi manylion i'r achwynydd am ganlyniad eu cwyn ar ffurf hwylus a hynny cyn gynted ag y ceir cyfle. Mae'r achwynydd yn cael gwybod am gynnydd eu cwyn yn gyson.

4.6 Mae Pennaeth yr ysgol neu aelod dynodedig o'r uwch-dîm rheoli yn adolygu cofnodion cŵynion gan blant neu ynghylch lles plant yn rheolaidd, i wneud yn siŵr fod y weithdrefn gŵynion yn gweithredu'n foddhaol, ac i nodi patrymau'r cŵynion a'r camau sy'n cael eu cymryd ynghylch cŵynion unigol. Mae'r Pennaeth yn cymryd unrhyw gamau priodol o adolygiad o'r fath mewn perthynas â pholisïau ac arferion yr ysgol, yn ogystal â chymryd unrhyw gamau dilynol pellach angenrheidiol mewn perthynas ag achosion unigol.

4.7 Mae cŵynion difrifol yn erbyn yr ysgol neu staff yr ysgol yn cael eu hysbysu i Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (neu unrhyw arolygiaeth a

gymeradwywyd y mae gan yr ysgol gytundeb gyda hi ar gyfer arolygiadau o dan Ddeddf Plant 1989), a hynny yn ychwanegol at unrhyw ofynion eraill ynghylch hysbysu a osodir ar yr ysgol gan awdurdod lleol neu gorff swyddogol arall.

- 4.8** Mae plant a'u rhieni yn cael gwybod sut y gallant gwyno'n uniongyrchol i Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (neu arolygiaeth a gymeradwywyd y mae gan yr ysgol gytundeb gyda hi ar gyfer arolygiadau o dan Ddeddf Plant 1989).

3. Amddiffyn Plant

Gweithdrefnau a hyfforddiant

Y CANLYNIAD

Mae lles plant yn cael ei hybu, mae plant yn cael eu hamddiffyn rhag eu cam-drin, ac mae ymateb priodol yn cael ei wneud i unrhyw honiad neu amheuaeth o gam-drin.

SAFON 5

- 5.1 Mae yna systemau yn yr ysgol sy'n anelu at sicrhau bod cam-drin plant yn cael ei atal, a bod yna ymateb priodol i amheuon neu honiadau o gam-drin. Mae'r systemau hyn yn hysbys i'r holl staff (gan gynnwys staff is, staff atodol, staff gwirfoddol a staff asiantaethau).**
- 5.2** Mae copi o weithdrefnau Pwyllgor Amddiffyn Plant yr Ardal (PAPYR) yn lleol yn cael ei gadw yn yr ysgol. Mae rheolwyr yr ysgol yn sicrhau bod y staff wedi'u darllen, yn eu deall ac yn wybodus amdanynt.
- 5.3** Mae gweithdrefnau amddiffyn plant yr ysgol yn cyd-fynd â'r polisiau a'r gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Amddiffyn Plant yr Ardal (PAPYR) sy'n berthnasol i ardal ddaearyddol yr ysgol. Mae gweithdrefnau amddiffyn plant yr ysgol wedi'u cyflwyno ar gyfer ystyriaeth a sylwadau i'r PAPYR lleol, a'r Awdurdod Addysg Lleol os yw'n briodol, ac mae unrhyw sylwadau wedi'u cymryd i ystyriaeth wrth adolygu gweithdrefnau'r ysgol.
- 5.4** Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer ymateb i honiadau neu amheuon bod plentyn wedi'u cam-drin (gan aelod o'r staff, plentyn arall, ymwelydd, aelod o deulu'r plentyn, yn yr ysgol, neu mewn man arall y tu allan i'r ysgol) yn cynnwys yr holl ofynion a nodir yn Atodiad 1.
- 5.5** Mae polisiau a gweithdrefnau'r ysgol a'i phroses gyflwyno ar gyfer staff yn ei gwneud yn glir bod methiant gan aelod staff i roi gwybod am gamdriniaeth neu esgeulustod corfforol, rhywiol neu emosiynol yn erbyn plentyn sydd wedi digwydd mewn gwirionedd neu a amheuir yn dramgwydd disgyblu.
- 5.6** Mae gan yr ysgol ganllawiau ysgrifenedig i staff sy'n destun honiadau yn eu herbyn. Bydd y canllawiau hyn yn egluro sut y gall y staff gael gwybodaeth a chymorth tra bydd ymchwiliad yn mynd yn ei flaen.
- 5.7** Mae'r canllawiau ysgrifenedig i'r staff yn cyd-fynd â chanllawiau'r PAPYR ac yn dangos yn glir y systemau y mae ar yr ysgol eu hangen i amddiffyn plant ac i leihau perygl camdriniaeth tra bydd y plentyn yn byw yn yr ysgol. Rhaid i'r canllawiau hyn gynnwys y weithdrefn ar gyfer ymdrin â lleoliadau y tu allan i'r awdurdod.
- 5.8** Mae Pennaeth yr ysgol yn rhoi hyfforddiant i'r holl staff, gan gynnwys y staff atodol, staff asiantaethau a gwirfoddolwyr, ynghylch atal camdriniaeth, adnabod camdriniaeth, ymdrin â datgeliadau neu amheuon camdriniaeth, a

gweithdrefnau amddiffyn plant yr ysgol. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei gynnwys mewn rhaglenni ymsefydlu ar gyfer staff newydd, gan gynnwys staff dros dro neu staff asiantaethau, ac yn barhaus ar gyfer y grŵp staff yn unol â nodau ac amcanion yr ysgol.

- 5.9** Mae gan yr ysgol a'r staff gysylltiadau fel rhan o'r drefn ag asiantaethau eraill sy'n ymwneud ag amddiffyn plant e.e. awdurdodau lleoli, ysgolion, ysbytai, ymarferwyr cyffredinol, etc., ac nid ydynt yn gweithio ar wahân iddynt.
- 5.10** Mae'r ysgol yn dilyn unrhyw brotocolau rhyng-asiantaethol lleol ar atal puteinio ymhlith plant ac ymchwilio iddo.

Mynd i'r afael â bwlio

Y CANLYNIAD

Mae'r plant yn cael eu hamddiffyn rhag eu bwlio gan eraill.

SAFON 6

- 6.1 Mae gan yr ysgol bolisi gwrth-fwlio y mae'n ei ddilyn, y mae'r plant a'r staff yn gyfarwydd ag ef ac sy'n effeithiol yn ymarferol. Os oes modd, mae'r plant yn yr ysgol yn cyfrannu at ddatblygu'r polisi .**
- 6.2** Mae gan yr ysgol bolisi gwrth-fwlio sy'n cynnwys:
- 6.2.1** diffiniad o fwlio, sy'n cynnwys galw enwau, "pigo" ar blant a defnyddio sylwadau neu gamau rhagfarnlyd ac sy'n cael ei adolygu'n aml gyda'r staff a'r plant, ac sy'n cynnwys bwlio gan y staff, gan blant a chan ymwelwyr a bwlio a all ddigwydd mewn mannau heblaw yn yr ysgol;
 - 6.2.2** mesurau i atal bwlio ac i ymateb i fwlio a welir neu y cyflwynir adroddiad amdano;
 - 6.2.3** hyfforddiant ar gyfer y staff mewn ymwybyddiaeth o fwlio a strategaethau effeithiol i fynd i'r afael ag ef.
- 6.3** Mae'r polisi hwn ar gael ac yn hysbys i'r staff a'r plant, gan gynnwys staff is, staff asiantaethau a staff a benodwyd yn ddiweddar.
- 6.4** Mae plant sy'n cael eu bwlio yn cael cefnogaeth, a rhoddir canllawiau addas hefyd i blant a all fwlio eraill.
- 6.5** Mae'r ysgol yn cynnal yn rheolaidd asesiadau risg o ba bryd, ym mha leoedd ac o dan ba amgylchiadau y mae'r perygl mwyaf o fwlio (gan gynnwys bwlio sy'n gyfystyr â chamdriniaeth gan ddisgyblion eraill), ac yn cymryd camau i leihau neu i wrthweithio'r perygl o fwlio.

Hysbysiadau

Y CANLYNIAD

Mae Pennaeth yr ysgol yn rhoi gwybod i'r awdurdodau priodol am bob digwyddiad arwyddocaol sy'n ymwneud ag amddiffyn y plant yn yr ysgol.

SAFON 7

- 7.1 Mae gan yr ysgol system ar gyfer hysbysu yn ddi-oed Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (neu arolygiaeth vymeradwyedig arall y mae gan yr ysgol gytundeb â hi ar gyfer arolygiadau o dan Ddeddf Plant 1989), yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol, a'r Cynulliad Cenedlaethol am y digwyddiadau canlynol:**
- 7.1.1** marwolaeth plentyn (tra bydd yn cael llety yn yr ysgol neu yn union wedyn) ac unrhyw fanylion am yr amgylchiadau sy'n hysbys;
 - 7.1.2** ymddygiad amhriodol gan aelod o'r staff fel nad yw o bosibl yn berson addas ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â phlant;
 - 7.1.3** niwed difrifol i blentyn yn yr ysgol neu yn ystod gweithgareddau wedi'u trefnu gan yr ysgol. Byddai hyn yn cynnwys lle mae honiad wedi'i wneud sy'n awgrymu bod plentyn wedi'i gam-drin;
 - 7.1.4** unrhyw salwch neu ddamwain ddifrifol sy'n ymwneud â phlentyn sy'n cael ei letya yn yr ysgol;
 - 7.1.5** brigiad unrhyw glefyd heintus hysbysadwy yn yr ysgol.
- 7.2** Mae gan yr ysgol system i roi gwybod yn unol â'r gofyniad o dan y Ddeddf Amddiffyn Plant 1999 os bydd unrhyw aelod o'r staff neu berson arall sy'n gweithio yn yr ysgol yn cael ei ddiswyddo neu'n ymddiswyddo, o dan amgylchiadau sy'n awgrymu nad ydynt yn addas i weithio gyda phlant.
- 7.3** Mae cofnod ysgrifenedig wedi'i gadw sy'n cynnwys manylion y camau a gymerwyd, a chanlyniad unrhyw gamau neu ymchwiliad, ar ôl unrhyw un o'r digwyddiadau hysbysadwy uchod sydd wedi digwydd ers yr arolygiad diwethaf.
- 7.4** Mae gan yr ysgol system ar gyfer hysbysu'r awdurdodau a'r unigolion am unrhyw bryderon difrifol am iechyd emosiynol neu feddyliol plentyn fel bod asesiad iechyd meddwl wedi'i geisio o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
- 7.5** Mae gan yr ysgol system ar gyfer hysbysu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, neu arolygiaeth cymeradwyedig arall y mae gan yr ysgol gytundeb arolygu â hi am unrhyw ddigwyddiad difrifol yn yr ysgol sydd wedi'i gwneud yn angenrheidiol galw'r heddlu i'r ysgol, p'un a oes plentyn wedi cael anaf neu beidio, a hynny yn ychwanegol at unrhyw ofynion bod ysgolion a gynhelir yn rhoi gwybod am faterion o'r fath i'r awdurdod addysg lleol.
- 7.6** Mae'r staff yn yr ysgol yn rhoi gwybod yn ddi-oed i rieni'r plentyn, ac os yw'n gymwys i'r awdurdod sydd wedi lleoli'r plentyn, am unrhyw ddigwyddiadau difrifol sy'n cynnwys eu plentyn, gan gynnwys unrhyw honiad bod y plentyn wedi cyflawni tramgwydd.

Amddiffyn plant - absenoldeb plentyn heb awdurdod

Y CANLYNIAD

Mae plant sy'n absennol heb awdurdod yn cael eu hamddiffyn yn unol â chanllawiau ysgrifenedig a chânt ymateb cadarnhaol ar ôl dod yn ôl.

SAFON 8

8.1 Mae'r ysgol yn cymryd camau i sicrhau bod plant sy'n absennol o'r ysgol heb gydsyniad yn cael eu hamddiffyn yn unol â pholisi a chanllawiau ysgrifenedig.

8.2 Mae gan yr ysgol weithdrefnau ysgrifenedig sy'n nodi'r camau sydd i'w cymryd pan fydd plentyn yn absennol heb awdurdod ac sy'n hysbys i'r staff, y plant a'u rhieni.

8.3 Mae gweithdrefnau'r ysgol yn cynnwys y canlynol:

8.3.1 chwilio am unrhyw blentyn sydd ar goll neu y credir ei fod wedi dianc o'r ysgol;

8.3.2 rhoi gwybod am blant sydd ar goll ers 3 awr neu fwy i'r Heddlu, i rieni'r plentyn (os yw'n briodol) ac i'r awdurdod a leolodd y plentyn yn yr ysgol (os oes un) ac, os yw'r ysgol yn ysgol a gynhelir, i'r awdurdod addysg lleol priodol;

8.3.3 camau i sicrhau gwybodaeth am ble mae plentyn sydd ar goll a cheisio sicrhau diogelwch a lles y plentyn hwnnw;

8.3.4 casglu a dychwelyd plant sydd ar goll pan ddeuir o hyd iddynt;

8.3.5 y camau sydd i'w cymryd pan ddaw'r plentyn yn ôl.

8.4 Ar ôl dychwelyd i'r ysgol, mae'r plentyn yn cael ei weld pryd bynnag y mae modd (ac os yw'n dymuno hynny) gan berson sy'n gyfrifol am ofal bugeiliol y plentyn i ystyried y rhesymau dros fod yn absennol heb ganiatâd. Mae unrhyw resymau a roddir yn cael eu hystyried mewn perthynas â sut mae'r plentyn yn derbyn gofal ac arferion gofal yr ysgol.

8.5 Mae unrhyw adroddiad gan blentyn ei fod wedi mynd ar goll oherwydd camdriniaeth yn yr ysgol yn cael ei gyfeirio ar unwaith at yr adran gwasanaethau cymdeithasol lleol i gael ei ystyried gan yr awdurdod hwnnw o dan weithdrefnau Amddiffyn Plant yr Ardal, ac mae'r camau priodol yn cael eu cymryd gan yr ysgol i amddiffyn y plentyn o dan sylw a phlant eraill yn ôl yr angen.

8.6 Mae cofnodion ysgrifenedig yn cael eu gwneud o amgylchiadau pob digwyddiad pan fydd plentyn yn dianc, pob cam a gymerir gan y staff, amgylchiadau dychweliad y plentyn, unrhyw resymau a roddir gan y plentyn dros ddianc, ac unrhyw gamau a gymerir yng ngoleuni'r rhesymau hynny.

- 8.7** Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r mesurau y mae'n briodol iddynt eu defnyddio i atal plentyn rhag ymadael heb ganiatâd o dan y ddeddfwriaeth bresennol a chanllawiau presennol y llywodraeth, ac nid ydynt yn mynd y tu hwnt i'r rhain.
- 8.8** Mae system ar gael ar gyfer monitro absenoldebau plant o'r ysgol heb awdurdod. Os cofnodir lefel uchel neu batrwm o absenoldebau sy'n peri pryder, mae'r rheolwr yn cychwyn adolygiad o gynllun gofal unrhyw blentyn unigol sydd o dan sylw, ac adolygiad o'r arferion gofal perthnasol sy'n bodoli yn yr ysgol.
- 8.9** Pan fydd plentyn yn dianc a'i fod mewn perygl os nad yw o dan oruchwyliaeth, mae gan yr ysgol weithdrefnau cytûn i fonitro'r plentyn ac i bennu sut y gellir atal y plentyn rhag ymadael â'r ysgol heb ganiatâd yn y dyfodol. Gall y gweithdrefnau gynnwys addasu adeiladau'r safle, dulliau ymddygiadol a/neu therapiwtig o newid ymddygiad y plentyn, neu ataliad corfforol y cytunwyd arno (yn unol â'r canllawiau y cytunwyd arnynt ar atal plant yn gorfforol). Rhaid i unrhyw fesurau o'r fath gael eu defnyddio yn unol â'r hyn y cytunir arno yng nghynllun gofal y plentyn.

4. Gofal a Rheolaeth

Y berthynas â phlant

Y CANLYNIAD

Mae perthnasoedd rhwng y staff a'r plant wedi'u seilio ar onestrwydd a chyd-barch.

SAFON 9

- 9.1 Mae'r perthnasoedd rhwng y staff a'r plant wedi'u seilio ar gyd-barch a chyd-ddealltwriaeth a ffiniau proffesiynol a phersonol clir sy'n effeithiol ar gyfer yr unigolion a'r grŵp.**
- 9.2** Gall y staff a gyflogir yn yr ysgol osod ffiniau diogel, cyson a dealladwy ar gyfer y plant mewn perthynas ag ymddygiad derbyniol, a chadw at y rhain.
- 9.3** Mae'r disgwyliadau ynghylch ymddygiad y staff a'r plant wedi'u deall yn glir ac wedi'u negodi gan y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn yr ysgol, gan gynnwys arfer rheolaeth briodol dros y plant er eu lles eu hunain ac er mwyn amddiffyn eraill.
- 9.4** Mewn penderfyniadau o ddydd i ddydd, mae'r staff yn dangos cydbwysedd priodol rhwng
- dymuniadau a dewisiadau pob plentyn,
 - anghenion y plant unigol,
 - anghenion y grŵp o blant sy'n byw yno ar y pryd, a
 - amddiffyn eraill (gan gynnwys y cyhoedd) rhag niwed.
- 9.5** Mae'r plant yn yr ysgol yn derbyn gofal, heb ffafriaeth nac anffafriaeth tuag at unrhyw unigolyn neu grŵp yn yr ysgol.
- 9.6** Mae'r ffordd y mae'r staff yn cael eu defnyddio yn hwyluso dilyniant staff sy'n darparu gofal i blant unigol, ac yn uchafu dewisiadau'r plant ynghylch pwy sy'n rhoi gofal personol iddynt os yw'n briodol. Gall yr ysgol ddangos bod y plant yn cael dewis, cyn belled ag y gellir, pwy sy'n darparu eu gofal personol.

Mesurau rheoli, disgyblu ac atal

Y CANLYNIAD

Mae'r plant yn cael eu helpu i ddatblygu ymddygiad sy'n dderbyniol yn gymdeithasol drwy gymell ymddygiad derbyniol ac ymateb adeiladol gan y staff tuag at ymddygiad amhriodol.

SAFON 10

10.1 Mae'r staff yn ymateb yn gadarnhaol i ymddygiad derbyniol, ac os yw'r staff yn barnu bod ymddygiad y plant yn annerbyniol, ymatebir i hynny drwy fesurau disgyblu adeiladol sydd wedi'u cymeradwyo gan y Pennaeth Gofal.

10.2 Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau ysgrifenedig clir a phriodol ar y mesurau rheoli, disgyblu ac atal y gellir eu defnyddio yn yr ysgol ac sy'n pwysleisio'r angen hefyd i ganmol y plant am ymddygiad derbyniol neu dda.

10.3 Mae unrhyw bolisi neu arferion disgyblu mewn tŷ neu uned fyrddio unigol yn gyson â pholisi cyffredinol yr ysgol, ac wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol gan yr ysgol.

10.4 Mae'r mesurau rheoli a'r sancsiynau wedi'u seilio ar sefydlu perthnasoedd cadarnhaol gyda'r plant ac wedi'u cynllunio i helpu'r plentyn. Mae'r mesurau hyn yn cael eu defnyddio'n deg ac yn gyson; maent hefyd yn rhoi hwb ar gyfer gwneud iawn ac adfer ac yn lleihau'r tebygrwydd y bydd ymddygiad negyddol yn ennyn sylw .

10.5 Mae unrhyw fesurau a gymerir i ymateb i ymddygiad annerbyniol yn briodol ar gyfer oedran, dealltwriaeth ac anghenion unigol y plentyn, gan gymryd i ystyriaeth er enghraifft y gall ymddygiad annerbyniol neu herfeiddiol ddeillio o salwch, bwlio, anabledau penodol megis awtistiaeth, neu anawsterau cyfathrebu. Mae mesurau penodol ar gyfer rheoli neu ymyrryd yn gorfforol yn cael eu dethol, eu hosgoi neu eu haddasu yn ôl yr angen i gymryd anghenion, nodweddion ac unrhyw anabled/AAA sydd gan y plentyn i ystyriaeth.

10.6 Nid yw'r staff na neb arall yn yr ysgol yn defnyddio cosbau afresymol, mympwyol neu ormodol, gan gynnwys unrhyw gosb sydd wedi'i bwriadu i achosi poen, pryder neu waradwydd, ac nid ydynt yn defnyddio unrhyw un o'r canlynol fel cosb:

- cosb gorfforol,
- unrhyw ddull o daro plentyn (gan gynnwys taro plentyn mewn dicter neu i dalu'r pwyth yn ôl),
- gwrthod y cyfle i gael bwyd neu ddiod,
- gorfodi'r plant i fwyta neu yfed,
- atal y plant rhag cysylltu dros y ffôn neu drwy lythyru â'r rhieni neu unrhyw wrandawr neu linell gymorth annibynnol briodol,

- mynnu bod plant yn gwisgo dillad neilltuol fel cosb neu ddillad nos yn y dydd,
- defnyddio triniaeth feddygol neu ddeintyddol neu eu dal yn ôl,
- cadw plant ar ddi-hun yn fwriadol,
- defnyddio dirwyon heblaw ar gyfer gwneud iawn a dirwyon o fwy na dau draean o'r arian poced sydd ar gael i'r plentyn ar y pryd,
- cloi'r plentyn mewn ystafell neu ran o adeilad,
- archwiliad corfforol agos o'r plentyn,
- dal yn ôl unrhyw gymhorthion neu offer y mae eu hangen ar blentyn anabl.

10.7 Nid yw sancsiynau yn erbyn grŵp yn cael eu defnyddio am dramgwyddau plant unigol nac fel dull o roi pwysau grŵp ar blentyn.

10.8 Ni roddir awdurdod i'r plant, gan gynnwys swyddogion a'r rhai sydd mewn safleoedd o awdurdod, ddefnyddio unrhyw sancsiynau neu ymyriad corfforol yn erbyn plant eraill.

10.9 Mae cofnod o bob sancsiwn ffurfiol a ddefnyddir yn cael ei gadw mewn llyfr sydd wedi'i rwymo a'i rifo sy'n cynnwys rhestr o'r sancsiynau a ganiateir. Mae'r cofnod yn cael ei wneud o fewn 24 awr a'i gofnodi'n ddarllenadwy. Mae pob cofnod yn cynnwys:

10.9.1 enw'r plentyn;

10.9.2 y dyddiad a'r lleoliad;

10.9.3 manylion yr ymddygiad amhriodol;

10.9.4 natur y sancsiwn;

10.9.5 enw'r aelod staff sy'n rhoi'r sancsiwn;

10.9.6 enw(au) unrhyw staff eraill sy'n bresennol;

10.9.7 effeithiolrwydd y sancsiwn ac unrhyw ganlyniadau;

10.9.8 llofnod yr aelod staff o dan sylw.

Pan ddefnyddir sancsiynau, mae'r plant yn cael eu hannog i ysgrifennu eu barn neu i'w chofnodi mewn ffordd arall, a llofnodi gyferbyn â hi, os oes modd, yn y cofnodion y mae'r ysgol yn eu cadw.

10.10 Dim ond i atal anaf tebygol i'r plentyn o dan sylw neu i eraill, neu ddifrod difrifol tebygol i eiddo, y defnyddir ymyriadau corfforol. Nid yw ymyriadau corfforol yn cael eu defnyddio fel cosb, fel dull i orfodi plentyn i gydymffurfio â chyfarwyddiadau, nac mewn ymateb i ymddygiad herfeiddiol heblaw yn y sefyllfaoedd a nodir yn adran 550A o Ddeddf Addysg 1996.

10.11 Mae gan yr ysgol bolisi pendant ar ddefnyddio ymyriadau corfforol ac o dan ba amgylchiadau y gellir eu defnyddio, ac mae'r polisi hwnnw'n gyson ag

unrhyw ganllawiau perthnasol cyfredol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddulliau ymyriadau corfforol a gymeradwywyd ac yn briodol i anghenion ac anawsterau'r plentyn yn yr ysgol. Mae holl staff yr ysgol yn ymwybodol o bolisi'r ysgol ar ddefnyddio ymyriadau corfforol a'r technegau perthnasol ac yn ei ddilyn yn ymarferol.

- 10.12** Mae'r ysgol yn darparu neu'n sicrhau y darperir hyfforddiant i'r staff ar dechnegau diogel a phriodol ar gyfer ymyrryd yn gorfforol â phlant, ac o dan ba amgylchiadau y gellir atal plant, gan gynnwys hyfforddiant mewn lleihau neu osgoi'r angen i ddefnyddio ymyriadau corfforol.
- 10.13** Nid yw ymyriadau corfforol yn ormodol nac yn afresymol.
- 10.14** Mae cofnod o'r adegau y mae oedolyn yn ymyrryd yn gorfforol â phlentyn yn cael ei gadw mewn llyfr penodol ar wahân, ac yn cynnwys enw'r plentyn, y dyddiad a'r lleoliad y digwyddodd yr ymyriad corfforol, manylion yr ymddygiad a'i gwnaeth yn angenrheidiol defnyddio'r ymyriad corfforol, natur yr ymyriad corfforol a ddefnyddiwyd, am ba hyd y defnyddiwyd yr ymyriad corfforol, enw'r aelod(au) staff a ddefnyddiodd yr ymyriad corfforol, enw(au) unrhyw staff eraill a fu'n bresennol, effeithiolrwydd yr ymyriad corfforol ac unrhyw ganlyniadau, unrhyw anafiadau a achoswyd i'r plentyn neu unrhyw berson arall neu a adroddwyd ganddynt, a llofnod y Pennaeth, y Pennaeth Gofal neu berson sydd wedi'i awdurdodi gan Bennaeth, llywodraethwyr neu berchnogion yr ysgol.
- 10.15** Mae cofnodion yr ysgol o sancsiynau ac ymyriadau corfforol yn cael eu hadolygu o leiaf ddwywaith y tymor gan un o uwch-aelodau staff yr ysgol i fonitro eu bod yn cydymffurfio â gweithdrefnau disgyblu, rheoli ac ymyriadau corfforol yr ysgol ac i ddod o hyd i unrhyw batrymau mewn digwyddiadau sy'n arwain at yr angen am sancsiynau neu ymyriadau corfforol.
- 10.16** Mae'r Pennaeth yn adolygu gofal plant unigol ac arferion gofal presennol yr ysgol yng ngoleuni'r digwyddiadau a gofnodir ac yng ngoleuni patrymau digwyddiadau sy'n gofyn am sancsiynau neu ymyriadau corfforol. Mae'r Pennaeth yn cofnodi unrhyw sylwadau ar briodoldeb enghreifftiau unigol o ddefnyddio sancsiynau neu ymyriadau corfforol, ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd wedyn.
- 10.17** Mae cofnodion o sancsiynau neu ymyriadau corfforol ar blentyn hefyd yn cael eu gwneud ar ffeil y plentyn unigol, y caiff y rhiant neu'r awdurdod sydd wedi lleoli'r plentyn ei gweld.
- 10.18** Mae cynrychiolydd i gorff llywodraethu'r ysgol, y perchennog neu'r person sy'n rhedeg yr ysgol yn darllen cofnodion am y defnydd ar sancsiynau ac ymyriadau corfforol ac yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig arnynt yn ystod pob ymweliad misol â'r ysgol a wneir o dan Safon 33.
- 10.19** Mae'r holl staff sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â phlant wedi darllen copi o bolisiau'r ysgol ar fesurau rheoli, disgyblu ac ymyriadau corfforol, yn dangos eu bod yn ei ddeall ac wedi'i lofnodi, a chedwir tystiolaeth o hyn ar eu ffeiliau personél. Mae'r polisi'n manylu ar sut mae'r staff i gael eu holi ar ôl unrhyw ymyriad corfforol.

- 10.20** Mae gwybodaeth yn cael ei rhoi yn briodol i bob plentyn ynghylch y disgwyliadau o ran ymddygiad yn yr ysgol, ynghylch unrhyw reolau y disgwylir iddynt eu cadw, a pha sancsiynau ac ymyriadau corfforol a ddefnyddir a sut y maent yn gysylltiedig ag ymddygiad annerbyniol. Trefnir hefyd fod yr wybodaeth hon ar gael i rieni ac awdurdodau sy'n lleoli plant yn yr ysgol fel y bo'n briodol.
- 10.21** Mae'r plant yn cael eu hannog i ddatblygu ymwybyddiaeth briodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae'r staff a'r plant fel ei gilydd yn glir fod gan bob unigolyn hawliau a chyfrifoldebau mewn perthynas â'r rhai sy'n byw yn yr ysgol, y rhai sy'n gweithio yno a phobl yn y gymuned.
- 10.22** Mae'r plant yn cael cyfle i drafod digwyddiadau a mynegi eu barn naill ai yn unigol neu mewn fforwm neu gyfarfod tŷ rheolaidd lle gall y plant a'r oedolion drafod ymddygiad anniogel.
- 10.23** Mae gan yr ysgol weithdrefnau a chanllawiau ar ymglymu'r heddlu yn yr ysgol, mae'r rhain wedi'u cytuno gyda'r heddlu lleol ac mae'r staff yn wybodus ac yn glir yn eu cylch.
- 10.24** Mae cyfarfodydd staff yn rhoi sylw i faterion rheoli. Mae'r staff yn cytuno ar ddulliau ymarferol a derbyniol o ymateb i broblemau ymddygiad a phroblemau rheoli grwpiau o blant a phlant unigol yng ngoleuni eu hanesion, unrhyw broblemau cyfredol a chynlluniau gofal unrhyw blant sydd wedi'u lleoli gan awdurdodau lleol.
- 10.25** Mae safonau ymddygiad yn yr ysgol ac yn y gymuned yn foddhaol o'u cymharu ag anghenion y plant.
- 10.26** Mae polisi disgyblu'r ysgol yn cynnwys datganiad clir sy'n dweud o dan ba amgylchiadau ac ym mha fodd y gellir gwahardd y plentyn o'r ysgol. Dim ond ar gyfer tramgwyddau difrifol y gwaherddir plant o'r ysgol ac mae'r cosbau hyn yn cael eu cymhwyso'n deg. Mae'r polisi disgyblaeth yn cynnwys manylion y weithdrefn apelio ac yn mynegi honno i'r plentyn a'r rheini (os yw'n briodol), unrhyw ladmerydd annibynnol sy'n cynrychioli'r plentyn a'r awdurdod sy'n lleoli'r plentyn.

5. Ansawdd Gofal

Derbyn ac ymadael

Y CANLYNIAD

Mae plant yn profi prosesau derbyn ac ymadael sydd wedi'u cynllunio ac sy'n cael eu trin yn sensitif.

SAFON 11

- 11.1 Mae'r trefniadau derbyn ac ymadael yn cael eu cynllunio a'u cytuno gyda'r plentyn ac fel y bo'n briodol, gyda'r rheini a'r gofalwyr a'r awdurdodau sydd wedi lleoli'r plentyn, a'u trafod yn sensitif a chyda gofal gan y rhai sy'n ymwneud â hwy.**
- 11.2** Mae yna weithdrefnau ar gyfer cyflwyno plant i'r ysgol, y staff a'r plant sy'n byw yno, i drefn a gweithdrefnau bob dydd yr ysgol, ac i ddisgwyliadau'r ysgol ynghylch y plentyn a'r hyn y gall y plentyn ei ddisgwyl o'r staff. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth am yr ysgol ar ffurf addas i'r plentyn, canllawiau a chymorth personol ar ôl cael ei dderbyn, ac adolygiad o'r ffordd y mae'r plentyn yn ymgartrefu ar ôl cael ei dderbyn i'r ysgol, a chmau priodol i'w gynorthwyo i ymgartrefu os bydd angen.
- 11.3** Mae'r ysgol yn gwneud ymdrech resymol i sicrhau'r holl wybodaeth am blentyn sy'n angenrheidiol cyn ei dderbyn (neu, mewn argyfwng, adeg ei dderbyn). Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys a yw'r plentyn mewn gofal ac os felly enw'r person cyswllt yn awdurdod lleoli'r plentyn ac unrhyw gynllun gofal cyfredol ynglŷn â'r plentyn, enw rhieni'r plentyn a'r ffordd o gysylltu â hwy neu ei warcheidwaid cyfreithiol, unrhyw anghenion iechyd neu anghenion addysgol cyfredol sydd gan y plentyn, unrhyw faterion a allai beri bod y plentyn yn arbennig o hawdd i'w niweidio neu yn berygl i eraill ac, os yw'n briodol, manylion dull cyfathrebu dewisol y plentyn.
- 11.4** Mae cyfarfod adolygu yn cael ei gychwyn cyn gynted â phosibl, a byth mwy na phedair wythnos ysgol ar ôl unrhyw dderbyniad mewn argyfwng er mwyn ystyried a ddylai'r plentyn sydd wedi'i dderbyn mewn argyfwng aros yn yr ysgol, neu a yw er lles y plentyn iddo symud i leoliad gwahanol. Mae'r cyfarfod adolygu hwnnw i gynnwys, cyn belled ag y gellir, o leiaf un cynrychiolydd o bob un o'r canlynol
- yr ysgol,
 - yr awdurdod sydd wedi lleoli'r plentyn (os yw'n gymwys),
 - y rhieni neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb riant,
 - y rhai sy'n chwarae rhan arwyddocaol gyda'r plentyn (megis y gwasanaethau cymdeithasol neu'r gwasanaethau iechyd) ac, os oes modd, y plentyn.
- 11.5** Mae anghenion y plentyn o dan sylw, ac effeithiau tebygol ei dderbyn ar y grŵp presennol o breswylwyr yn cael eu cymryd i ystyriaeth mewn

penderfyniadau ynghylch ei dderbyn i'r ysgol. Os nad yw'r Penaethiaid yn rheoli eu derbyniadau eu hunain, rhaid iddynt roi gwybod i'r awdurdod addysg lleol neu'r corff sy'n rheoli'r derbyniadau am unrhyw amheuan sydd ganddynt am unrhyw dderbyniad, mewn ysgrifen, a chadw copi o'r hysbysiad hwn yn yr ysgol.

- 11.6** Pan fydd plant ar fin ymadael â'r ysgol ar ddyddiad sydd wedi'i gynllunio, mae'r plant yn cael eu paratoi ar gyfer ymadael â'r ysgol ymhell cyn y dyddiad ymadael arfaethedig, ac maent yn cael gwybodaeth a chanllawiau priodol i'w cynorthwyo yn ystod y broses drosglwyddo.

Hamdden a gweithgareddau

Y CANLYNIAD

Caiff y plant ddigon o gyfle i ymwneud â gweithgareddau pwrpasol a difyr o fewn yr ysgol ac yn y gymuned leol.

SAFON 12

- 12.1** Mae'r ysgol yn darparu ystod a dewis o weithgareddau ar gyfer disgyblion preswyl y tu allan i amser dosbarth, a hynny o dan do ac y tu allan, gan gynnwys teithiau priodol, drwy'r flwyddyn.
- 12.2** Mae'r plant yn cael anogaeth a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cymryd i ystyriaeth eu hil, eu diwylliant, eu hiaith, eu crefydd, eu diddordebau, eu galluoedd a'u hanableddau. Mae pen-blwyddi, dyddiau enwi, gwyliau diwylliannol a chrefyddol yn cael eu dathlu fel bo'n briodol ac mae'r plant yn cymryd rhan gyda'r staff wrth gynllunio'r digwyddiadau hyn gyda'i gilydd.
- 12.3** Mae gan blant gydbwysedd priodol rhwng amser rhydd a gweithgareddau sydd wedi'u trefnu gyda'r nos ac yn ystod y penwythnos.
- 12.4** Mae yna weithgareddau arwyddocaol i ddisgyblion ar y penwythnosau, neu ar adegau eraill pan fydd y nifer o ddisgyblion sy'n aros yn yr ysgol y tu allan i'r amser dosbarth efallai yn llai.
- 12.5** Mae gweithgareddau o dan oruchwyliaeth a heb oruchwyliaeth yn cymryd i ystyriaeth ddiogelwch y plant bob amser ac os oes yna beryglon mawr neu anarferol, mae asesiad o'r risg yn cael ei wneud a'i gofnodi ac mae unrhyw gamau a grybwyllir yn cael eu cymryd i leiafu risgiau diangen. Mae unrhyw weithgaredd risg-uchel a ddarperir neu a drefnir ar gyfer plant yn cael ei oruchwyllo gan bersonau sy'n meddu ar y cymhwyster perthnasol i oruchwyllo ymglymiad y plant yn y gweithgaredd o dan sylw (megis y cymhwyster ar gyfer hyfforddi neu oruchwyllo plant a ddyfernir gan gorff cenedlaethol cydnabyddedig y gweithgaredd o dan sylw). Mae offer diogelwch priodol, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn cael ei ddefnyddio. Mae cymorth boddhaol ar gael, ac yn cael ei roi, i bob plentyn er mwyn iddynt gyfleu eu dymuniadau.
- 12.6** Mae'r staff yn yr ysgol yn cymryd camau i gynnwys y plant mewn gweithgareddau pwrpasol sy'n addas i'w hoedran, eu diddordebau, eu doniau, eu galluoedd ac unrhyw anableddau. Mae'r staff yn gofyn am farn y plant ac yn ei chymryd i ystyriaeth wrth ddewis a chynllunio gweithgareddau. Mae cymorth ar gael i alluogi plant anabl i fwynhau ystod o weithgareddau yn yr ysgol a'r tu allan iddi.
- 12.7** Caiff y plant gyfle i ddefnyddio a dewis o blith papurau newydd, llyfrau, cylchgronau a chomigau priodol yn ôl eu haddasrwydd. Darperir ar gyfer oedran, gender, diwylliant a diddordebau'r plant. Caiff y plant gyfle i ddefnyddio tegau, cerddoriaeth, llyfrau a gêmiau addas.

- 12.8** Rhoddir ystyriaeth i amgylchiadau unigol y plant wrth edrych ar dapiau fideo ar teledu, ac wrth ddefnyddio gêmâu cyfrifiadur a chyrcu'r rhyngwyd. Dim ond plant yn yr amrediad oedran arfaethedig a gaiff wyllo/chwarae tapiau fideo, consolau gêmâu a gêmâu cyfrifiadur eraill. Ni chaiff unrhyw ysgol gadw ar unrhyw dapiau fideo na gêmâu sydd wedi'u hardystio fel rhai sy'n addas i rai dros 18 yn unig mewn manau lle gallai'r rhai o dan 18 eu cael. Mae systemau a pholisïau ar gael hefyd i ddiogelu plant wrth rwydweithio ar y cyfrifiadur neu ar y rhyngwyd a hefyd i'w hatal rhag gor-ddefnyddio'r teledu ar cyfrifiadur.

Cyfraniad y ddarpariaeth breswyl at addysg

Y CANLYNIAD

Mae darpariaeth breswyl yr ysgol yn cynorthwyo'r plant i wneud cynnydd addysgol yn yr ysgol.

SAFON 13

- 13.1 Mae'r staff gofal a darpariaeth breswyl a gweithgareddau'r ysgol yn cyfrannu at gynnydd addysgol plant unigol. Mae'r staff gofal yn mynd ati i gefnogi addysg y plant, gan sicrhau eu bod yn bresennol yn rheolaidd ac yn brydlon, gan darfu ar y diwrnod ysgol cyn lleied ag y gellir.**
- 13.2** Mae'r staff gofal yn gyfarwydd ag anghenion addysgol a chynnydd y plant yn eu gofal, ac maent yn rhoi gwybod i'r staff addysgu am unrhyw wybodaeth y mae arnynt ei hangen i'w cynorthwyo wrth gefnogi'r plentyn yn ystod oriau'r ysgol. Maent yn cyfrannu at adolygiad blynyddol y datganiad ac yn cymryd rhan os oes angen hynny wrth roi'r cynllun addysg unigol ar waith.
- 13.3** Darperir cyfleusterau i blant mewn unedau preswyl sy'n ffafriol i astudio ac ar gyfer gwneud unrhyw waith cartref, ac maent yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i wneud hynny.
- 13.4** Mae'r plant yn cael cyfle i ddefnyddio llyfrau a chymhorthion addysgol eraill (sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'r cam yn eu hanghenion addysgol) i'w cynorthwyo â'u haddysg y tu allan i amser dosbarth.
- 13.5** Mae'r ysgol yn rhoi cyfle i'r plant ddefnyddio cyfleusterau llyfrgell sy'n addas i'w anghenion a'u diddordebau, ar gyfer darllen addysgiadol a darllen yn eu horiau hamdden.
- 13.6** Mae staff preswyl, staff gofal a staff addysgu yn cydweithio i ddarganfod dulliau o hybu datblygiad a chyflawniad personol, cymdeithasol ac addysgol pob plentyn, ac yn cyfrannu'n gyson at hybu datblygiad yn eu gwaith gyda'r plentyn.
- 13.7** Os yw'n briodol, mae'r plant yn cael eu helpu gan y staff addysgu a'r staff gofal wrth baratoi i fyw yn annibynnol.

Iechyd

Y CANLYNIAD

Mae'r plant yn byw mewn amgylchedd iach ac mae anghenion iechyd pob plentyn yn cael eu nodi a'u hybu.

SAFON 14

- 14.1 Mae'r ysgol yn mynd ati i hybu gofal iechyd pob plentyn ac yn diwallu unrhyw anghenion am ofal personol agos.**
- 14.2** Mae anghenion iechyd corfforol, emosïynol a meddyliol pob plentyn yn cael eu nodi a'u hybu yn weithgar yng ngofal beunyddiol y plentyn. Mae'r ysgol yn rhoi canllawiau, cyngor a chymorth i'r plant ar faterion iechyd a gofal personol sy'n briodol i anghenion a dymuniadau pob plentyn.
- 14.3** Mae plant sydd â phroblemau iechyd penodol (gan gynnwys asthma, gwlychu'r gwely, anemia crymangell, clefyd siwgr) neu anabledd, gan gynnwys nam corfforol neu nam ar y synhwyrâu neu anableddau dysgu, yn cael cymorth priodol i osgoi embaras posibl ac ymateb negyddol gan eraill. Mae'r ysgol yn gweithredu unrhyw driniaeth, o fewn galluoedd y staff, a ragnodir neu a gynhwysir yng nghynllun gofal y plentyn, gan gymryd dymuniadau'r plentyn i ystyriaeth.
- 14.4** Mae gan yr ysgol bolisi a chanllawiau ysgrifenedig, sy'n cael eu rhoi ar waith yn ymarferol, ynghylch hybu iechyd y plant yn yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn rhoi canllawiau, cyngor a chymorth, sy'n briodol i oedran, anghenion, diwylliant a dymuniadau pob plentyn, mewn perthynas â materion iechyd a materion cymdeithasol. Os oes modd, mae'r plant yn cael cyfleoedd i drafod y materion hyn yn agored ac yn onest gyda'r staff a'u cyfoedion. Mae'r gofynion o dan y safon hon yn cynnwys:
- 14.4.1** maethiad a deiet;
 - 14.4.2** ymarfer corff a gorffwys;
 - 14.4.3** hylendid personol;
 - 14.4.4** addysg rhyw ac iechyd;
 - 14.4.5** effeithiau ysmegu, toddyddion a sylweddau eraill;
 - 14.4.6** HIV ac AIDS a chlefydau eraill sy'n cael eu cludo yn y gwaed;
 - 14.4.7** eich diogelu'ch hun rhag rhagfarn, bwlïo a chamdriniaeth.
- 14.5** Mae gan yr ysgol drefniadau boddhaol i bob plentyn gael triniaeth feddygol, optegol a deintyddol tra bydd yn cael ei letya yn yr ysgol.

14.6 Mae gan bob plentyn gynllun iechyd ysgrifenedig clir yn ymdrin â'r canlynol:

- 14.6.1** hanes meddygol;
- 14.6.2** unrhyw fesurau ataliol angenrheidiol;
- 14.6.3** alergeddau neu adweithiau croes hysbys i feddyginiaeth;
- 14.6.4** anghenion iechyd deintyddol;
- 14.6.5** anghenion clyw;
- 14.6.6** anghenion optegol;
- 14.6.7** cofnodion gwiriadau datblygiadol;
- 14.6.8** therapïau triniaeth penodol neu raglenni adferol y mae eu hangen mewn perthynas ag iechyd corfforol, emosiynol neu feddyliol;
- 14.6.9** monitro iechyd y mae angen i'r staff ei wneud;
- 14.6.10** gofal personol agos neu weithrediadau corfforol y mae angen cymorth y staff ar eu cyfer;
- 14.6.11** ymglymiad rhieni'r plentyn neu bobl eraill arwyddocaol mewn materion iechyd.

14.7 Ymdrinnir â materion hylendid personol yn sensitif.

14.8 Mae'r staff yn deall anghenion plant sy'n ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phlant o gefndiroedd hiliol a diwylliannol gwahanol a gofynnir am gyngor arbenigol yn ôl yr angen.

14.9 Mae'r staff yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio Cymorth Cyntaf a darperir blychau cymorth cyntaf yn yr ysgol. Mae gan o leiaf un aelod o'r staff ar bob shift gymhwyster cyfredol mewn cymorth cyntaf.

14.10 Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i sicrhau cyngor, triniaeth a chymorth meddygol a deintyddol, a chyngor, triniaeth a chymorth seicolegol a seiciatryddol allanol ar gyfer plant y mae arnynt angen y gwasanaethau hynny. Mae'r ysgol wedi sicrhau caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan berson neu gorff sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn hwnnw, i roi cymorth cyntaf a meddyginiaeth ddi-bresgripsiwn briodol, ac i geisio triniaeth feddygol, optegol neu ddeintyddol pan fydd ei hangen, ac mae'n cadw'r caniatâd hwnnw ar ffeil pob plentyn.

14.11 Os yw'r ysgol yn cyflogi person i weithio fel nyrs yn yr ysgol, mae gan yr aelod staff hwnnw gofrestrïad cyfredol fel nyrs, ac adeg eu penodi mae'r ysgol wedi cadarnhau eu bod wedi'u cofrestru gyda Chyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Nid yw teitl 'nyrs' yn cael ei ddefnyddio ar gyfer staff sydd heb eu cofrestru fel hyn. Os yw'r ysgol yn cyflogi person fel nyrs, dylai'r nyrs gael cyfle i fynd at feddyg sydd wedi'i enwi i gael canllawiau proffesiynol ac i ymgynghori ag ef.

- 14.12** Mae'r plant, yn ddarostyngedig i'w hoed a'u dealltwriaeth, yn cael dewis yn rhydd a oes aelod o'r staff yn ddelfrydol o'r naill ryw/gender neu'r llall yn mynd gyda hwy neu beidio wrth fynd i weld meddyg, nyrs neu ddeintydd, a'u bod, cyn belled ag y bo'n ymarferol, yn cael gweld doctor o'r naill gender neu'r llall (os oes un ar gael) os dymunant. Os oes modd, mae'r ysgol yn trefnu bod cymorth staff priodol neu berson annibynnol ar gael i ganiatáu i'r plentyn gyfathrebu'n effeithiol â phroffesiynolion iechyd.
- 14.13** Mae'r plant sy'n gymwys i wneud hynny yn cael gwneud dewisiadau ynghylch eu triniaeth nyrsio, eu triniaeth feddygol neu eu triniaeth ddeintyddol.
- 14.14** Mae cymorth cyntaf a thriniaeth ar gyfer mân anhwylderau'n cael eu rhoi yn yr ysgol gan staff dynodedig cymwys (e.e. gan gynorthwy-ydd cymorth cyntaf cymwysedig neu o dan ei oruchwyliaeth neu os oes gan yr ysgol un, gan nyrs neu o dan oruchwyliaeth y nyrs).
- 14.15** Dim ond i'r plentyn y cafodd ei rhagnodi ar ei gyfer y mae meddyginiaeth bresgripsiwn yn cael ei rhoi, a hynny yn unol â'r presgripsiwn neu â chyfarwyddiadau'r fferyllfa, ac nid yw'n cael ei chadw i gael ei defnyddio'n gyffredinol i bobl eraill (plant na staff) na'i hychwanegu at 'stoc' i gael ei defnyddio felly.
- 14.16** Mae meddyginiaeth bresgripsiwn a meddyginiaeth 'gartref', heblaw'r feddyginiaeth a gedwir gan blant unigol sy'n cadw eu meddyginiaeth eu hunain, yn cael ei chadw yn ddiogel (e.e. mewn cabinet o dan glo ac mewn cynhwysydd â label arno). Mae cyfarwyddiadau ynghylch ei defnyddio yn cael eu cadw gyda'r feddyginiaeth.
- 14.17** Mae yna bolisi a chanllawiau ysgrifenedig, sy'n cael eu rhoi ar waith, ar gyfer rhoi a storio meddyginiaethau.
- 14.18** Mae'r ysgol wedi sicrhau cyngor meddyg neu nyrs cymwysedig wrth baratoi protocol ysgrifenedig ar ddarparu meddyginiaethau 'aelwyd' nad ydynt yn feddyginiaethau presgripsiwn ar gyfer y plant, ac yn dilyn y cyngor hwn.
- 14.19** Mae plant sy'n cadw ac yn rhoi eu meddyginiaeth i'w hunain yn cael eu hasesu gan y staff (gan gynnwys cymryd barn y rhieni i ystyriaeth a gofyn am eu cydsyniad fel y bo'n briodol) fel rhai sy'n ddigon cyfrifol i wneud hynny, a gallant storio'u meddyginiaeth rywle nad yw ar gael yn hwylus i blant eraill.
- 14.20** Mae'r ysgol yn cadw cofnod ysgrifenedig o'r holl feddyginiaethau, triniaethau a chymorth cyntaf a roddir i'r plant, gan roi'r enw, y dyddiad, y feddyginiaeth/y driniaeth, y rheswm dros eu rhoi (os nad ydynt wedi'u rhoi ar bresgripsiwn), a hwnnw wedi'i lofnodi gan yr aelod cyfrifol o'r staff ac yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan uwch-aelod dynodedig priodol o'r staff.
- 14.21** Mae'r plant yn cael meddyginiaethau yn unol â'r presgripsiwn ar eu cyfer, ac mae unrhyw wrthodiad i gymryd meddyginiaeth yn cael ei gofnodi ac, os yw'n debyg o greu effaith ar unwaith ar iechyd y plentyn neu yn digwydd yn aml, yn cael ei adrodd i'r ymarferydd sydd wedi rhoi'r presgripsiwn.

- 14.22** Mae cofnod ysgrifenedig yn cael ei gadw o bob salwch, damwain neu anaf arwyddocaol i blant yn ystod eu lleoliad yn yr ysgol.
- 14.23** Pan fydd staff yr ysgol yn cyflawni tasgau iechyd medrus ar gyfer plentyn ag anableddau (ee gofal cathetr, rhoi ocsigen, rhoi diazepam drwy'r rectwm, cynnal rhaglenni ffisiotherapi, rheoli prothesisau), dim ond gyda chaniatâd ysgrifenedig y meddyg sy'n eu rhagnodi neu'r nyrs sy'n gyfrifol am y plentyn unigol o dan sylw y mae'r rhain yn cael eu cyflawni, a hynny gan staff sydd wedi'u hawdurdodi a'u hyfforddi i wneud hynny. Mae cofnodion yn cael eu cadw ynghylch pob tasg o'r fath sy'n cael ei chyflawni.
- 14.24** Os yw'r plant ar eu pen eu hunain ac yn y gwely oherwydd salwch, mae ganddynt ddulliau priodol i alw am gymorth oedolion ac edrychir arnynt yn rheolaidd.
- 14.25** Yn ddarostyngedig i ystyriaeth o unrhyw ddylwetswydd o gyfrinachedd sydd yn ddyledus i'r plentyn, mae'r ysgol yn rhoi gwybod i'r rhieni am broblemau iechyd a thriniaeth eu plentyn.

Darparu a pharatoi prydau

Y CANLYNIAD

Mae'r plant yn mwynhau prydau iach a maethlon sy'n diwallu eu hanghenion deietegol.

SAFON 15

- 15.1 Mae'r plant yn cael digon o fwyd iachus a maethlon sydd wedi'i baratoi'n addas, ac sy'n cymryd i ystyriaeth eu hanghenion a'u dymuniadau, ac yn cael cyfle i ddysgu paratoi eu prydau eu hunain. Mae anghenion deietegol arbennig oherwydd iechyd, argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol neu gefndir diwylliannol yn cael eu diwallu, gan gynnwys dewis prydau llysieuol i blant sy'n dymuno'u cael.**
- 15.2** Pan fo'n bosib, trefnir bod prydau yn achlysuron cymdeithasol sydd wedi'u rheoli'n dda ac yn drefnus.
- 15.3** Yn ddarostyngedig i anghenion deietegol, mae gan y plant ddewis o brif gwrs ym mhob prif bryd. Ymgynghorir â'r plant ynghylch cynllunio bwydlenni ac fe'u hanogir i ddatgan eu hoff fwyd a diod, sy'n cael eu cymryd i ystyriaeth pryd bynnag y bydd modd.
- 15.4** Mae cofnod o'r bwydlenni (fel y cawsant eu gweini) yn cael ei gadw yn yr ysgol am flwyddyn ac mae ar gael i'r arolygwyr. Ni cheir yr un bwydlenni bob wythnos neu'n amlach.
- 15.5** Mae'r Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd lleol wedi asesu darpariaeth yr ysgol ar gyfer storio a pharatoi bwyd ac mae unrhyw argymhellion yn cael eu gweithredu o fewn yr amserlen a roddwyd.
- 15.6** Gofynnir am gyngor meddygol os bydd plant yn gyson yn gwrthod bwyta, yn gorfwyta neu os oes ganddynt batrymau bwyta eraill sy'n peri pryder.
- 15.7** Nid yw'r plant yn cael eu gwahardd o brydau'r gymuned fel rhan o'r drefn arferol.
- 15.8** Mae'r ystafelloedd bwyta a'r dodrefn ynddynt yn addas ar gyfer niferoedd ac anghenion y plant a'r staff sy'n bwyta yno.
- 15.9** Mae'r llestri a'r cyllyll a'r ffyrc ac ati yn ddigonol ac yn lân, ac yn addas ar gyfer unrhyw blant ag anabledau corfforol y mae arnynt angen cyllyll a ffyrc arbennig.
- 15.10** Pan fo'n ymarferol, a chydag unrhyw gymorth y mae arnynt ei angen, gall y plant baratoi byrbrydau a diodydd iddynt eu hunain ar adegau rhesymol, a chânt gyfleoedd i gael profiad o baratoi a choginio bwyd, ac i ddefnyddio cegin sy'n addas iddynt ei defnyddio.
- 15.11** Mae'r staff a'r plant sy'n ymwneud â pharatoi bwyd i eraill wedi cael cyfarwyddyd neu hyfforddiant priodol mewn dulliau diogel o drafod bwyd a hylendid.
- 15.12** Mae'r ysgol yn darparu prydau ar adegau penodedig rhesymol, ac mae bwyd naill ai'n cael ei ddarparu neu mae ar gael yn hwylus i'r plant pan fyddant yn colli pryd penodedig.

- 15.13** Mae dŵr yfed ar gael yn hwylus i'r plant, oni bai fod hynny'n anaddas, yn yr ysgol ar bob adeg resymol.
- 15.14** Mae unrhyw brydau sy'n cael eu darparu i blant i ffwrdd o'r bwrdd neu'r man cinio yn bodloni'r un safonau â'r rhai sy'n cael eu darparu yn y man cinio.
- 15.15** Mae unrhyw gymorth y mae ei angen ar blant ag anableddau wrth fwyta yn cael ei roi mewn ffordd briodol sy'n hybu urddas a dewis.

Dillad personol, angenrheidiau personol ac arian personol

Y CANLYNIAD

Mae'r plant yn cael gwisgo eu dillad eu hunain y tu allan i'r amser ysgol, yn gallu diogelu angenrheidiau personol a deunyddiau ysgrifennu tra bônt yn yr ysgol ac yn cael cymorth i ofalu am eu harian eu hunain.

Safon 16

- 16.1 Darperir yn ddigonol ar gyfer y plant ar sail unigol ac fe'u hanogir i arfer eu hoffter eu hunain tra'n dewis dillad ac angenrheidiau personol. Mae plant y mae arnynt angen cymorth i ddewis eu dillad a/neu sut i wario'u harian yn cael y cymorth angenrheidiol mewn ffordd sy'n rhoi cymaint â phosibl o ddewis iddynt.**
- 16.2** Mae plant yn gallu dod â'u dillad eu hunain i'r ysgol, eu storio yn yr ysgol, a gwisgo dillad yn ôl eu dewis rhesymol eu hunain y tu allan i'r amser dosbarth.
- 16.3** Mae plant yn gallu prynu angenrheidiau personol a deunyddiau ysgrifennu, naill ai yn yr ysgol neu o siop gyfagos.
- 16.4** Gall y plant gadw eu dillad a'u hangenrheidiau personol a'u deunyddiau ymolchi heb i neb arall gael eu defnyddio.
- 16.5** Mae gan fenywod ifanc eu cyflenwad eu hunain o dyweli misglwyf a thamponau ac nid oes rhaid iddynt ofyn amdano o stoc ganolog.
- 16.6** Mae'r staff yn rhoi canllawiau i'r plant, yn ôl yr angen, ynghylch defnyddio deunyddiau ymolchi, tyweli misglwyf a thamponau.
- 16.7** Mae arian y plant yn cael ei gadw'n ddiogel ar eu cyfer ac mae'r plant yn llofnodi'r cofnodion pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Maent yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i reoli a chyllidebu eu harian eu hunain.

6. Cynllunio ar gyfer Gofal

Cynllunio Gofal a'r cynllun Lleoli

Y CANLYNIAD

Mae anghenion plant yn cael eu hasesu ac mae cynlluniau ysgrifenedig yn amlinellu sut y caiff yr anghenion hyn eu diwallu tra bônt yn yr ysgol.

SAFON 17

Nodyn: Dim ond os nad yw'r wybodaeth gan yr ysgol fel arall yn natganiad y plentyn o anghenion addysgol arbennig a/neu'r cynllun gofal y mae safonau 17.1, 17.2 a 17.5 yn ofynnol. Os yw'r wybodaeth honno ar gael yn y naill neu'r llall o'r dogfennau hyn, gellir eu gosod hwy yn lle "cynllun lleoliad" drwy gydol y safonau hyn. Os rhan yn unig o'r wybodaeth hon sydd ar gael, rhaid i'r gweddill gael ei chasglu a'i chyplysu naill ai â'r cynllun gofal neu'r datganiad o anghenion addysgol arbennig.

- 17.1 Mae yna gynllun lleoli ysgrifenedig sy'n pennu sut y bydd yr ysgol yn gofalu am bob disgybl preswyl yn unol â'i anghenion aseddig, mae'r ysgol yn gofalu am y plentyn hwnnw yn unol â'r cynllun hwnnw, yn monitro'r cynnydd mewn perthynas â'r cynllun hwnnw, ac yn diweddarur cynllun hwnnw yn ôl yr angen.**
- 17.2** Mae'r ysgol yn llunio cynllun lleoli ysgrifenedig, sy'n cael ei gytuno cyn belled ag y bo'n ymarferol gyda'r plentyn, rhieni'r plentyn ac unrhyw awdurdod lleoli ar gyfer y plentyn, sy'n nodi anghenion y plentyn hwnnw y bydd yr ysgol yn anelu at eu bodloni ac sy'n pennu sut bydd yr ysgol yn gofalu am y plentyn ac yn hybu ei les o ddydd i ddydd. Ymgynghorir mewn ffordd debyg pan fydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r cynllun lleoli. Mae'r cynllun lleoli yn gyson â chynllun gofal awdurdod lleoli unrhyw blentyn sydd wedi'i leoli gan awdurdod o'r fath. Mae'r cynllun lleoli yn cael ei adolygu a'i ddiwygio yn rheolaidd yn ôl yr angen i adlewyrchu newidiadau sylweddol o ran anghenion y plentyn neu gynnydd yn ei ddatblygiad.
- 17.3** Mae gan bob plentyn o leiaf un gweithiwr allweddol (neu berson tebyg) yn yr ysgol sy'n rhoi canllawiau a chymorth unigol i'r plentyn. Maent yn mynd ati yn rheolaidd i drefnu bod amser ar gael ar gyfer y plentyn i alluogi'r plentyn i ofyn am ganllawiau, cyngor a chymorth ar unrhyw fater. Maent yn monitro bod yr ysgol yn cydymffurfio â chynllun lleoli'r plentyn o ddydd i ddydd.
- 17.4** Mae dymuniadau'r plentyn yn cael eu ceisio a'u cymryd i ystyriaeth wrth ddewis eu gweithiwr/gweithwyr allweddol a chymerir eu dymuniadau i ystyriaeth os gofynnant am newid gweithiwr allweddol.
- 17.5** Mae cynllun lleoli'r ysgol yn cynnwys disgrifiad o anghenion y plentyn a sut y cânt eu diwallu, gan gynnwys:
- 17.5.1** iechyd a hybu iechyd;

- 17.5.2** cyfathrebu;
 - 17.5.3** addysg a thargedau cyrhaeddiad;
 - 17.5.4** ystyriaethau diwylliant, crefydd, iaith a hil;
 - 17.5.5** hamdden;
 - 17.5.6** trefniadau ar gyfer cysylltiadau â'r teulu, cyfeillion a phobl eraill sy'n arwyddocaol;
 - 17.5.7** rheoli unrhyw anabledau neu anawsterau ymddygiad sydd gan y plentyn a gweithio gyda hwy;
 - 17.5.8** cyfarwyddiadau clir ynghylch rhoi unrhyw feddyginiaeth neu driniaeth arferol neu frys tra bydd y plentyn yn yr ysgol (gan sicrhau unrhyw bresgripsiynau meddygol angenrheidiol, caniatadau a hyfforddiant i'r staff cyn bod y plentyn yn cael ei dderbyn);
 - 17.5.9** darparu gofal agos i'r plentyn os oes angen.
- 17.6** Mae cymorth ar gyfer plant anabl a chanddynt anawsterau cyfathrebu yn cael ei ddarparu, i'w helpu i chwarae rhan weithredol wrth wneud penderfyniadau am eu bywydau.
- 17.7** Gan gymryd i ystyriaeth eu hoed, eu dealltwriaeth a'u hamgylchiadau personol, mae'r plant yn yr ysgol yn gwybod cynnwys eu cynlluniau lleoli, ac yn cadarnhau bod yr ysgol yn darparu gofal ar eu cyfer sy'n gyson â'r rhain.
- 17.8** Mae'r ysgol yn cyfrannu'n briodol at adolygiadau statudol ar gyfer plant sydd wedi'u lleoli gan awdurdodau lleol, yn galluogi plant i gyfrannu at unrhyw brosesau adolygu sy'n gymwys iddynt ac i'w deall, ac yn rhoi ar waith unrhyw gamau y cytunwyd y byddai'r ysgol yn eu gweithredu yn dilyn adolygiadau statudol.

Ffeiliau Achos ar Blant Unigol

Y CANLYNIAD

Mae anghenion, datblygiad a chynnydd y plant yn cael eu cofnodi er mwyn adlewyrchu eu hunigolrwydd a'u cydadwaith gyda'r grŵp.

SAFON 18

18.1 Mae gan bob plentyn gofnod parhaol preifat a diogel o'u hanes a'u cynnydd a chaiff y plentyn weld y cofnod hwnnw, yn unol â'r gofynion cyfreithiol ynghylch diogelu.

18.2 Mae ffeil(iau) plentyn yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- 18.2.1** enw, gender a dyddiad geni;
- 18.2.2** argyhoeddiad crefyddol (os oes un);
- 18.2.3** disgrifiad o'i darddiad hiliol, cefndir diwylliannol a chefnidir ieithyddol;
- 18.2.4** cyfeiriad cartref;
- 18.2.5** enw, cyfeiriad a rhif ffôn ar gyfer cysylltu mewn argyfwng â rhieni a phob person sydd â chyfrifoldeb riant;
- 18.2.6** enw a manylion cyswllt y person neu'r awdurdod sy'n gyfrifol am leoli'r plentyn yn yr ysgol;
- 18.2.7** a yw'r plentyn mewn gofal neu beidio a manylion unrhyw orchmynion llys hysbys sy'n effeithio ar ofal y plentyn;
- 18.2.8** dyddiad a manylion unrhyw absenoldeb o'r ysgol heb awdurdod;
- 18.2.9** dyddiad unrhyw ymweliad â'r plentyn tra bydd yn yr ysgol, a'r rheswm amdano;
- 18.2.10** dyddiad ac amgylchiadau unrhyw fesur rheoli, atal neu ddisgyblu a ddefnyddiwyd ar gyfer y plentyn;
- 18.2.11** copi o unrhyw ddatganiad o anghenion addysgol arbennig mewn perthynas â'r plentyn o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996, gyda manylion unrhyw anghenion o'r fath;
- 18.2.12** anghenion arbennig o ran deiet, iechyd a deintyddiaeth, os oes rhai;
- 18.2.13** trefniadau cyswllt, ac unrhyw gyfyngiadau ar gysylltu neu gyfathrebu â rhieni ac eraill;
- 18.2.14** cynlluniau lleoli cyfredol a rhai'r gorffennol;
- 18.2.15** enw a chyfeiriad y meddyg teulu y mae'r plentyn wedi cofrestru gyda hwy ac ymarferydd deintyddol cofrestredig y plentyn;

- 18.2.16** manylion unrhyw ddamweiniau, anafiadau neu unrhyw salwch difrifol y mae'r plentyn wedi'u dioddef tra bo'n cael ei letya gan yr ysgol;
 - 18.2.17** imiwneiddiadau, alergeddau, profion neu archwiliadau meddygol, iechyd neu ddatblygiad a wnaed tra bo'r plentyn yn cael ei letya gan yn yr ysgol;
 - 18.2.18** meddyginiaethau (meddyginiaethau presgripsiwn a rhai di-bresgripsiwn) a roddwyd i'r plentyn gan staff yr ysgol a meddyginiaeth a reolir gan y plentyn ei hun;
 - 18.2.19** adneuo neu dynnu arian neu bethau gwerthfawr i'w cadw'n ddiogel gan yr ysgol, ynghyd â dyddiadau a manylion.
- 18.3** Mae cofnodion ysgrifenedig ar ffeil y plentyn cael eu llofnodi a'u dyddio ac mae enw'r llofnodydd wedi'i nodi'n glir.
- 18.4** Mae'r plant yn cael gwybod y cânt ddarllen eu ffeiliau os dymunant, ac eithrio gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth trydydd partion, ac ychwanegu datganiadau personol neu ddatganiadau yn cywiro gwallau.
- 18.5** Mae unrhyw gofnodion ynghylch disgyblion unigol a gedwir gan yr ysgol yn cael eu cadw am o leiaf 21 o flynyddoedd o ddyddiad geni'r plentyn neu eu trosglwyddo i'r ysgol nesaf, gan sicrhau derbynneb ar eu cyfer.³

³ Petai'r ysgol yn cau, dylai drosglwyddo, cyhyd â bod yr awdurdod o dan sylw yn cytuno, gofnodion disgyblion unigol ynghylch unrhyw ddisgybl cyfredol neu gyn-ddisgybl sydd wedi'i leoli gan awdurdod lleoli i'r awdurdod hwnnw er mwyn iddynt eu cadw ar gyfer y dyfodol.

Cofnodion Cyffredinol yr Ysgol

Y CANLYNIAD

Mae yna gofnodion digonol o'r grwpiau o staff a phlant yn yr ysgol.

SAFON 19

19.1 Mae'r ysgol yn cadw cofnodion clir a chywir o'r grwpiau o staff a phlant yn yr ysgol, a'r digwyddiadau o bwys sy'n effeithio ar yr ysgol a'r plant sy'n preswyllo yno.

19.2 Mae'r ysgol yn cadw'r holl gofnodion canlynol, gan eu cadw'n gyfoes:

19.2.1 cofrestr plant sy'n dangos dyddiadau derbyn ac ymadael pob plentyn sy'n cael ei letya yn yr ysgol, pwy fu'n gyfrifol am eu lleoli yn yr ysgol, ble'r oeddent yn cael eu lletya cyn cyrraedd yr ysgol, a ble y maent yn cael eu lletya ar ôl ymadael â'r ysgol, a'r awdurdod sy'n lleoli'r plentyn a statws cyfreithiol pob plentyn a dderbynnir i'r ysgol gan awdurdod lleoli;

19.2.2 ar gyfer yr holl staff a'r holl bersonau eraill sy'n gweithio yn yr ysgol (gan gynnwys staff asiantaethau a gwirfoddolwyr) cofrestr cyflogydd sy'n dangos enw llawn, gender a dyddiad geni, cymwysterau perthnasol a phrofiad ar gyfer gweithio gyda phlant, p'un a ydynt yn cael eu cyflogi gan yr ysgol yn amser llawn neu'n rhan amser (a'r oriau a weithir os ydynt yn staff rhan-amser), ac a ydynt yn preswyllo yn yr ysgol;

19.2.3 ffeil bersonél i bob aelod staff sy'n cynnwys o leiaf

- eu llythyr cais ac unrhyw ffurflenni cais a lenwyd,
- eu curriculum vitae a'u hanes cyflogaeth os yw'r ysgol wedi gofyn am hwnnw hefyd,
- tystiolaeth bod gwiriadau priodol wedi'u cyflawni,
- copi o'u contract cyflogaeth,
- copïau neu dystiolaeth o gymwysterau,
- unrhyw dystlythyrau y mae'r ysgol wedi'u sicrhau,
- nodiadau ar y cyfweliad os cawsant eu cymryd,
- manylion unrhyw gamau disgyblu a gymerwyd yn eu herbyn;

19.2.4 manylion unrhyw berson arall sy'n byw neu'n gweithio ar safle'r ysgol;

19.2.5 lög o'r holl ddamweiniau sy'n digwydd i blant tra byddant yn derbyn gofal gan yr ysgol, neu ddamweiniau i staff neu ymwelwyr yn yr ysgol;

19.2.6 bwydlenni (fel y cawsant eu gweini) y flwyddyn ddiwethaf;

- 19.2.7** rostrau dyletswyddau sy'n cofnodi enwau'r staff a'r personau eraill a fu'n gweithio mewn gwirionedd yn yr ysgol neu gyda phlant o'r ysgol, yn y dydd ac yn y nos;
- 19.2.8** dyddiadur o'r digwyddiadau a ddigwyddodd yn yr ysgol, gan gynnwys enwau ymwelwyr â'r ysgol a'r rhesymau dros eu hymweliadau (gellir cadw'r olaf mewn llyfr ymwelwyr ar wahân os dymunir).
- 19.3** Mae'r cofnodion uchod (heblaw'r bwydlenni) yn cael eu cadw am o leiaf bum mlynedd o ddyddiad y cofnod olaf.

Cysylltiad

Y CANLYNIAD

Yn unol â'u dymuniadau, gall plant gadw cysylltiad â'u rhieni a'u teuluoedd tra byddant yn byw oddi cartref yn yr ysgol ac maent yn cael eu hannog i wneud hynny.

SAFON 20

- 20.1** Yn ddarostyngedig i'w dymuniadau, mae'r plant yn cael eu hannog a'u galluogi mewn ffordd bendant gan yr ysgol i gadw cysylltiad â'u rhieni ac aelodau eraill o'r teulu (oni bai bod pryderon ynghylch eu lles) tra byddant yn byw yn yr ysgol.
- 20.2** Mae'r staff yn cysylltu â'r rhieni ynghylch unrhyw bryderon ynglŷn â lles plant yn yr ysgol.
- 20.3** Mae unrhyw gyfyngiadau ar gysylltu â rhieni, aelodau'r teulu neu bersonau eraill sy'n cael eu gosod gan lys, personél awdurdod lleol sydd wedi'u hawdurdodi i wneud hynny neu riantyn cael eu gweithredu gan yr ysgol.
- 20.4** Nid yw'r ysgol ei hun yn gosod cyfyngiadau neu'n monitro cysylltiadau plentyn dros y ffôn, yn ysgrifenedig neu drwy ddulliau electronig â rhieni neu aelodau o'r teulu oni bai bod tystiolaeth glir bod perygl sylweddol o niwed i'r plentyn drwy gysylltiadau o'r fath, ac mae cofnod yn cael ei gadw ynghylch unrhyw gyfyngiadau o'r fath a'r rhesymau drostynt.
- 20.5** Mae'r plant yn gallu cyfarfod â rhieni neu ymwelwyr eraill yn yr ysgol mewn amgylchoedd cysurus a phreifat.
- 20.6** Mae'r staff yn cael hyfforddiant i ddatblygu medrau i weithio gyda phlant a'u teuluoedd.

Paratoi ar gyfer Annibyniaeth

Y CANLYNIAD

Mae plant yn cael eu paratoi ar gyfer newid i fyw fel oedolion ac ar gyfer mwy o annibyniaeth.

SAFON 21

- 21.1 Mae bywyd beunyddiol yr ysgol yn darparu cyfleoedd i bob plentyn yn yr ysgol, sy'n briodol ar gyfer oed ac anghenion pob plentyn, ddatblygu'r wybodaeth a'r medrau y bydd ar y plentyn eu hangen ar gyfer eu trefniadau byw tebygol yn y dyfodol.**
- 21.2** Os yw disgybl mewn gofal ac y bydd yn ymadael â gofal wrth ymadael â'r ysgol, mae'r ysgol yn cytuno â'r awdurdod sy'n gyfrifol am y person ifanc ynghylch pa gyfraniad y dylai ei wneud at weithredu cynllun Llwybrau neu gynllun arall, ar gyfer y disgybl cyn i'r disgybl ymadael â'r ysgol.
- 21.3** Mae'r trefniadau hyn yn unol ag anghenion y person ifanc hwnnw, ac os yw'n bosibl, mae'r ysgol yn rhoi ei chyfraniad ar waith am o leiaf flwyddyn cyn y disgwylir i'r disgybl ymadael â gofal neu symud i fyw'n annibynnol.⁴ Mae'r ysgol yn gweithio gydag unrhyw Gyngorydd Personol i'r plentyn.

⁴ Gall cynllun o'r fath gynnwys gwneud trefniadau a pharatoi ar gyfer addysg bellach neu uwch neu waith cyflogedig, llety annibynnol, rheoli arian personol a budd-daliadau, gofal iechyd, sicrhau cyngor a chymorth angenrheidiol, sefydlu cysylltiadau cymdeithasol, hobiau a gweithgareddau hamdden, a thasgau bywyd pob dydd megis siopa a choginio.

Cymorth i Blant Unigol

Y CANLYNIAD

Mae'r plant yn cael cymorth unigol pan fydd arnynt ei angen.

SAFON 22

- 22.1 Mae pob plentyn yn cael cymorth unigolledig yn unol â'i anghenion a'i ddymuniadau, ac mae plant y gwelir bod arnynt angen cymorth arbennig, neu fod ganddynt broblemau arbennig, yn cael cymorth, canllawiau a chefnogaeth pan fydd eu hangen neu pan ofynnir amdanynt.**
- 22.2** Mae'r ysgol yn mynd ati i annog pob plentyn yn gadarnhaol i gymryd rhan ym mhob grŵp cymdeithasol, yn mynd i'r afael ag unigolion sydd yn ynysu eraill ac yn helpu'r plant hynny nad ydynt, am unrhyw reswm, yn ffitio'n hwylus yn y grŵp preswyl.
- 22.3** P'un ai Saesneg neu Cymraeg yw'r prif iatih mewn ysgol, rhoddir cymorth i unrhyw blentyn nad yw prif iath yr ysgol yn iaith gyntaf iddynt (neu sy'n defnyddio dulliau cyfathrebu eraill), gan eu galluogi i fynegi eu hanghenion, eu dymuniadau a'u pryderon, ac i gyfathrebu â'r staff a'r plant eraill yn yr ysgol.
- 22.4** Gall y plant gysylltu ag unrhyw aelod o'r staff ynglŷn â phryderon personol neu bryderon lles, ac nid eu gweithiwr allweddol dynodedig yn unig.
- 22.5** Mae'r ysgol yn darparu gwasanaethau proffesiynol yn ôl yr angen i helpu plant i ddatblygu hunaniaeth unigol mewn perthynas â'u rhyw, eu cefndir crefyddol, hiliol, diwylliannol neu ieithyddol, eu hanabledd a/neu eu AAA neu eu cyfeiriadedd rhywiol.
- 22.6** Mae cymorth a chynghor yn cael eu rhoi i unrhyw blentyn yn yr ysgol sy'n ymwneud â cham-drin neu buteinio, neu sydd wedi bod felly, naill ai fel dioddefwr camdriniaeth neu wrth gam-drin eraill, ac mae'r plentyn yn chwarae rhan wrth gynllunio unrhyw raglen o gymorth o'r fath.
- 22.7** Mae plant sydd mewn cyfnod o straen personol (gan gynnwys hiraeth) yn cael cymorth o fewn yr ysgol.
- 22.8** Mae'r ysgol yn enwi i bob plentyn o leiaf un person, sy'n annibynnol ar yr ysgol a/neu'r awdurdod sydd wedi lleoli'r plentyn yno, y gallant gysylltu â hwy yn uniongyrchol ynghylch problemau neu bryderon personol yn yr ysgol. Os ydynt wedi'u penodi gan yr ysgol, mae'r personau annibynnol hyn wedi bod yn destun yr un gwiriadau fetio ag sy'n ofynnol o dan y safonau hyn ar gyfer staff yr ysgol. Mae'n ofynnol iddynt ddilyn gweithdrefnau amddiffyn plant yr ysgol os cânt wybod am honiadau neu amheuon o gam-drin neu niwed arwyddocaol arall i unrhyw blentyn o'r ysgol.
- 22.9** Mae plant y mae arnynt angen gwasanaethau allanol arbenigol (e.e. ar gyfer hamdden, iechyd, addysg neu gynrychiolaeth gyfreithiol) yn cael y

gwasanaethau hynny mewn gwirionedd. Mae'r staff yn cydweithredu wrth roi unrhyw raglenni ar waith sy'n gysylltiedig â gwasanaethau arbenigol megis therapi iaith a lleferydd neu raglenni ffisiotherapi.

- 22.10** Mae'r ysgol yn sicrhau bod addysg bersonol, addysg iechyd, addysg gymdeithasol ac addysg rhyw sy'n briodol ar gyfer pob plentyn preswyl unigol, gan gynnwys plant ag anabledau, yn cael eu darparu.
- 22.11** Lle bo'n gymwys, mae'r ysgol yn sicrhau bod gwybodaeth bersonol, gwybodaeth addysgol a gwybodaeth iechyd berthnasol am bob plentyn yn cael ei throsglwyddo i leoliad dilynol y plentyn.
- 22.12** Dim ond os yw'n cael ei phennu yng nghynllun lleoli'r plentyn, os yw awdurdod lleoli'r plentyn yn cytuno yn achos plentyn sydd wedi'i leoli gan awdurdod lleoli y caiff unrhyw dechneg therapiwtig benodol⁵ ei defnyddio gydag unrhyw blentyn yn yr ysgol. Hefyd, mae'n hysbys bod yna dystiolaeth i ategu defnyddio'r dechneg yn ddiogel ac effeithiol. Dim ond gan aelod o'r staff neu ymarferydd arall sy'n meddu ar gymhwyster cydnabyddedig cyfredol yn y therapi o dan sylw, a'r cymhwyster hwnnw wedi'i ddilysu gan yr ysgol fel un dilys a phriodol yn uniongyrchol gyda'r corff sydd wedi'i ddyfarnu neu'r gofrestr berthnasol, y caiff y dechneg ei defnyddio, neu o dan gyfarwyddyd neu oruchwyliaeth yr aelod staff neu ymarferydd hwnnw. Mae unrhyw aelod o'r staff o'r fath sy'n defnyddio techneg felly yn cael ei oruchwyllo wrth ddefnyddio'r dechneg gan berson o'r tu allan i'r ysgol nad yw'n gyfrifol am yr ysgol, ac sydd â chymhwyster a phrofiad yn y therapi o dan sylw.
- 22.13** Mae'r plant yn cael cymorth priodol yn dilyn unrhyw ddigwyddiad trawmatig yn yr ysgol.

5 Mae techneg therapiwtig yn golygu unrhyw dechneg sydd wedi'i bwriadu i drin problem gorfforol, cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol, seicolegol neu wybyddol plentyn neu i leddfu arni, y mae ei chymhwyso yn gofyn am fedrau neu wybodaeth sydd y tu hwnt i'r medrau neu'r wybodaeth y byddai disgwyl i riant, athro/athrawes neu weithiwr gofal feddu arnynt fel rheol.

7. Y Safle

Lleoliad, Dyluniad, Maint

Y CANLYNIAD

Mae'r plant yn byw ar safle dymunol sydd wedi'i ddylunio'n dda ac sy'n darparu digon o le a chyfleusterau i ddiwallu eu hanghenion.

SAFON 23

23.1 Mae'r ysgol wedi'i lleoli ac wedi'i dylunio yn unol â'i Datganiad o Ddiben ac mae ei maint a'i chynllun yn cydymffurfio â'r datganiad hwnnw. Mae'n ateb anghenion y plant ac yn rhoi'r math o amgylchedd sydd fwyaf o gymorth i ddatblygiad pob plentyn, ac mae'n ddigonol ar gyfer nifer y plant .

23.2 Os yw'r ysgol yn lletya plant ag anableddau, darperir cymhorthion ac addasiadau priodol ac unrhyw ddodrefn neu offer arbenigol sy'n angenrheidiol i'w galluogi i fyw bywyd mor normal â phosibl. Mae sylw arbennig yn cael ei roi i'r canlynol:

23.2.1 mae'r llety'n sicrhau y caiff plant ag anableddau fynd i bob rhan o'r adeilad a'r safle y mae arnynt angen ei ddefnyddio;

23.2.2 mae canllawiau a chymhorthion symud eraill wedi'u lleoli lle maent yn briodol;

23.2.3 nid oes gormod o rampiau yn yr adeiladau neu'r tiroedd a nid y'w rampiau hynny mor serth, llithrig, cul neu ddiameddiffyn ag i beri problem;

23.2.4 mae unrhyw lifftiau a grisiau wedi'u haddasu ac yn ddiogel i bob defnyddiwr;

23.2.5 os oes gan blant nam ar eu golwg, dewisir lliwiau a goleuadau i gydbwysor golled golwg;

23.2.6 os oes gan blant nam ar y clyw, mae system dolen anwythol, addasiadau angenrheidiol i'r ffôn a'r teledu ac inswleiddiad rhag sŵn yn cael eu darparu;

23.2.7 manau storio diogel ar gyfer offer a chadeiriau olwynion, gyda threfniadau priodol ar gyfer ailwefru batriau cadeiriau olwynion;

23.2.8 galluogi plant i fynd drwy ddrysau heb gymorth lle bo'n bosibl – e.e. trwy osod drysau y gellir eu gwthio'n agored i'r naill gyfeiriad neu'r llall o gadair olwyn, gyda phanel golwg diogelwch ar uchder addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwynion;

23.2.9 digon o le a chynllun priodol i'r safle, yr offer a'r celfi i alluogi plant â phroblemau symudedd neu blant sy'n defnyddio cadeiriau olwynion neu gymhorthion symud eraill i symud yn rhesymol rwydd o amgylch yr ysgol.

- 23.3** Nid oes unrhyw ofynion neu argymhellion ynghylch yr ysgol gan unrhyw un o'r cyrff canlynol heb eu gweithredu (heblaw unrhyw un sy'n cael ei weithredu o fewn yr amserlen a argymhellwyd gan yr awdurdod perthnasol):
- 23.3.1** yr awdurdod cynllunio;
 - 23.3.2** yr awdurdod rheoli adeiladu ;
 - 23.3.3** y gwasanaeth tân;
 - 23.3.4** yr awdurdod iechyd amgylchedd.
- 23.4** Os oes gan ysgol blant anabl yn preswyllo yno, mae therapydd galwedigaethol wedi asesu'r safle a glynwyd wrth ei argymhellion.
- 23.5** Nid yw safle'r ysgol yn cael ei ddefnyddio hefyd ar gyfer swyddogaethau na gweithgareddau sy'n peryglu gofal neu breifatrwydd plant yn yr ysgol neu'n effeithio'n andwyol arno.
- 23.6** Mae mesurau diogelu effeithiol, sy'n dderbyniol i'r plant a'r staff, yn cael eu cymryd i sicrhau bod yr ysgol yn ddiogel rhag i bobl di-awdurdod fynd yno, heb beryglu gofal y plant yn yr ysgol na chael effaith andwyol arno.
- 23.7** Nid yw systemau monitro clywedol na gweledol yn cael eu defnyddio yn yr ysgol oni bai
- fod angen penodol amdanynt ar hyn o bryd o fewn cynllun lleoli unrhyw blentyn unigol dan sylw neu,
 - eu bod wedi'u cymeradwyo'n benodol gan yr awdurdod sydd wedi lleoli'r plentyn neu'r rhiant neu,
 - fod llys wedi gofyn yn benodol amdanynt a bod y datganiad o ddiben yr ysgol yn darparu ar eu cyfer.
- Mae offer o'r fath yno yn unig er mwyn diogelu a hybu lles y plentyn neu blant eraill yn yr ysgol, a hynny gyda gwybodaeth lawn y plentyn hwnnw ac unrhyw blant eraill yr effeithir arnynt, yn ddarostyngedig i'w hoed a'u dealltwriaeth.
- 23.8** Nid yw cyfyngiadau ffisegol ar symudiadau normal o fewn llety preswyllo (e.e. pyrth grisiau, dolenni uchel ar ddrysau) yn cael eu defnyddio mewn perthynas â phlentyn ond pan fydd y cyfyngiad wedi'i gytuno yn ei gynllun lleoli (a'i gynllun gofal yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol), a dim ond pan fydd eu hangen er mwyn diogelu a hybu lles y plentyn hwnnw yn foddhaol y maent yn cael eu defnyddio. Nid yw cyfyngiadau o'r fath ar gyfer un plentyn yn gosod cyfyngiadau tebyg ar y plant eraill.
- 23.9** Mae'r ysgol yn cadw cysylltiadau priodol â chymuned leol yr ysgol ac os yw'n briodol, mae'n hybu cysylltiadau cadarnhaol rhwng y plant a'r gymuned.

Llety

Y CANLYNIAD

Mae'r plant yn byw mewn llety sydd wedi'i addurno yn briodol, ei ddodrefnu yn briodol a'i gynnal yn briodol i safon uchel, ac yn darparu cyfleusterau digonol at eu defnydd.

SAFON 24

24.1 Mae'r ysgol yn darparu llety digonol o ansawdd da ar gyfer disgyblion preswyl sydd wedi'i gynnal yn dda ac sy'n gyson â'u hanghenion.

24.2 Mae llety preswyl a chyfleusterau'r ysgol ar gyfer disgyblion y tu allan i amser dosbarth wedi'u haddurno a'u dodrefnu'n briodol i safon dderbyniol sy'n creu amgylchedd dymunol a chyn belled ag y bo'n ymarferol amgylchedd preswyl cartrefol, sy'n briodol i oedran, diwylliant a chefnidir ethnig y plant sy'n cael eu lletya ar gymuned.

24.3 Mae tu mewn i'r ysgol ar tu allan iddi yn cael ei gadw mewn cyflwr strwythurol ac addurnol da. Mae difrod i'r safle ar celfi (gan gynnwys fandaliaeth a graffiti) yn cael ei gywiro'n brydlon. Mae'r tiroedd ar mannau chwarae ar offer chwarae sefydlog yn cael eu cadw'n dda ac maent yn ddiogel.

24.4 Yn ystod y tymor, mae llety preswyl ar gyfer disgyblion yn cael ei neilltuo at ddefnydd y disgyblion y mae wedi'i ddynodi ar eu cyfer yn unig, ac nid yw disgyblion eraill yn cael mynd yno ond drwy wahoddiad rhesymol oddi wrth y disgyblion sy'n byw yn yr adeilad hwnnw neu'r uned honno.

24.5 Cyn belled ag y gellir, mae'r plant yn cael dewis ystafell sengl. Nid oes mwy na phedwar o blant mewn ystafell wely. Mae unrhyw gais gan blentyn i newid ystafell wely yn cael ei ystyried a chytunir arno os oes modd. Mae gan ystafelloedd gwely neu ddorturau

- digon o welyau addas a digon o ddillad gwely addas,
- carped neu orchudd priodol arall ar y llawr,
- ffenestr sy'n rhoi digon o olau naturiol yn ystod y dydd,
- llenni neu orchudd arall ar y ffenestr,
- seddau,
- digon o olau i ddarllen wrtho, a
- gwres.

Mae gan bob plentyn

- lle i storio dillad, a
- lle diogel o dan glo neu fel arall i storio eiddo personol.

- 24.6** Nid yw'r plant yn rhannu ystafelloedd gwely na dorturiau gydag oedolion, gyda phlant o oedran syweddol wahanol⁶, na chyda phlant o'r gender arall.
- 24.7** Mae pob plentyn yn cael gosod stamp personol ar eu hystafell wely ac yn cael eu hannog i wneud hynny o fewn rheswm.
- 24.8** Nid yw'r plant na'r staff yn gyson o'r farn bod ystafelloedd gwely neu ddorturau'r plant yn rhy llawn neu'n rhy fach.⁷
- 24.9** Mae ffonau, ffonau testun a systemau cyfathrebu tebyg sy'n cael eu darparu at ddefnydd y plant yn yr ysgol yn unig yn cynnig lefel dderbyniol o breifatrwydd ar gyfer galwadau personol, ac yn cael eu cadw mewn trefn, gan drwsio unrhyw ddifrod neu fethiant yn brydlon. Mae nifer a lleoliad y ffonau yn sicrhau eu bod yn hygyrch i bob disgybl preswyl, ac yn ddigonol i osgoi ciwio i raddau sylweddol yn ystod oriau brig. Mae disgyblion ag anabledau yn cael eu galluogi i ddefnyddio'r ffôn yn breifat cyn belled ag y bo'n bosibl.
- 24.10** Mae cyfleusterau i'r plant astudio y tu allan i amser addysgu, a'r rheini'n dawel, yn cynnwys digon o seddi a lle wrth ddesg neu fwrdd, digon o olau, gyda digon o le i storio llyfrau a deunyddiau astudio, ac maent ar gael pan fydd eu hangen at ddibenion astudio.
- 24.11** Mae yna gyfleusterau i'r plant ddilyn eu hobiau personol yn yr ysgol, gyda digon o le storio diogel i gadw deunyddiau'n ddiogel.
- 24.12** Mae'r plant yn cael cyfle i leisio barn am addurdiadau cyffredinol, dodrefn a chyflwr yr ysgol os dymunant.
- 24.13** Mae yna gyfleusterau i olchi dillad gwely a dillad, a chyfleusterau steil domestig i'r plant ddysgu golchi eu dillad eu hunain, eu sychu a'u smwddio, os ydynt yn dymuno hynny ac os yw hynny'n briodol mewn perthynas â'u cynllun lleoli neu eu cynllun ymadael â gofal. Mae'r dillad gwely'n cael eu cadw'n dderbyniol o lân. Os oes eu hangen, mae ysgolion yn darparu cyfleusterau arllwys a golchi ar gyfer dillad brwnt.
- 24.14** Mae goleuo, gwres ac awyriant pob rhan o'r ysgol yn foddhaol ac yn diwallu anghenion y plant yn llawn.
- 24.15** Mae yna ystafelloedd lle gall y plant gyfarfod yn breifat ag ymwelwyr a lle ar gyfer gweithgareddau preifat, chwarae a hamdden
- 24.16** Nid yw'r trefniadau ymweld yn peri bod plant eraill yn gorfod rhoi'r gorau i'w gweithgareddau arferol.

⁶ Fel canllaw cyffredinol, dylid dehongli oedran 'sylweddol wahanol' fel gwahaniaeth o dros ddwy flynedd, neu fod mewn grwpiau blwyddyn ysgol nad ydynt yn gyfagos â'i gilydd, oni bai bod rheswm da o dan amgylchiadau penodol i ddehongli'n wahanol.

⁷ Os oes angen cyfeirio at safonau ynghylch lle ffisegol mewn asesiadau ffiniol o ystafelloedd wrth gynllunio llety, neu os oes anghydfod ynghylch maint ystafelloedd, dylid dilyn y canllawiau perthnasol yn Rheoliadau Safleoedd Ysgolion 1999. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i ystafelloedd gwely sengl gael o leiaf 6m² o arwynebedd llawr defnyddiadwy, ac yn achos ystafelloedd ar gyfer mwy nag un plentyn o leiaf 1.6 m² plws 4.2 m² fesul plentyn o arwynebedd llawr defnyddiadwy.

- 24.17** Mae gan y staff ystafelloedd cysgu-i-mewn dynodedig sydd wedi'u lleoli yn agos i ystafelloedd gwely'r plant er mwyn ymateb i anghenion y plant yn ystod y nos. Os oes mwy nag un aelod o'r staff yn cysgu-i-mewn, mae yna ystafelloedd cysgu-i-mewn ar wahân.
- 24.18** Pan fydd angen system effeithiol ar gyfer galw mewn argyfwng oherwydd anabledau plant neu anghenion eraill, mae system o'r fath yn cael ei darparu gyda digon o fannau galw sydd wedi'u lleoli'n briodol ac yn hawdd i'r plant fynd atynt mewn argyfwng (e.e. cordiau tynnu y gellir eu cyrraedd ar ôl cwmpo). Mae'r system ar waith ac yn effeithiol o ran galw am gymorth prydlon gan staff.
- 24.19** Os bydd eu hangen ar y plant, mae'r ysgol yn darparu offer digonol a phriodol megis lifftiau, taclau codi a chadeiriau olwynion, ac mae offer o'r fath yn cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd. Mae'r staff sy'n defnyddio offer o'r fath wedi cael hyfforddiant priodol.

Ystafelloedd ymolchi a thai bach

Y CANLYNIAD

Mae'r plant yn cael cyflawni eu gofal personol yn breifat a chydag urddas.

SAFON 25

- 25.1 Mae gan yr ysgol ddigon o faddonau, cawodydd a thoiledau, bob un o safon dda, ac sy'n addas i ddiwallu anghenion y plant. Mae gan yr ysgol gyfleusterau newid ac ymolchi priodol ar gyfer plant ag anymataliad pan fo'n angenrheidiol.**
- 25.2** Mae yna o leiaf un toiled i bob pump o blant sy'n cael eu lletya, sy'n agos at y man cysgu ac yn hawdd i'w gyrraedd oddi yno, ynghyd â darpariaeth gyfagos i olchi a sychu dwylo. Mewn unedau preswyl bechgyn, gellir darparu wrinalau yn lle dau draean o'r nifer gofynnol o doiledau ar y mwyaf. Os oes toiled en suite wedi'i ddarparu ar gyfer rhai disgyblion, dylid darparu un toiled nad yw'n doiled en suite fesul pob pedwar disgybl nad oes ganddynt eu cyfleusterau en suite eu hunain.
- 25.3** Mae baddonau a chawodydd ar gael i'r plant eu defnyddio, gydag o leiaf un baddon neu gawod i bob saith o blant sy'n cael eu lletya. Ceir cymhareb uwch os oes ei hangen oherwydd anghenion y plant. Fel rheol, dylai'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ofynnol fod yn gawodydd.
- 25.4** Mae'r cyflenwadau dŵr poeth ac oer yn ddigonol ar gyfer lefelau cyffredin o ddefnydd gan y plant a'r staff.
- 25.5** Mae'r ystafelloedd ymolchi, y cawodydd a'r thoiledau wedi'u lleoli ac wedi'u dylunio i gymryd i ystyriaeth anghenion y plant o ran preifatrwydd, urddas a diogelwch, ac maent yn hwylus ar gyfer y manau cysgu a'r manau hamdden yn yr ysgol. Gall drysau gael eu cloi ond gall staff eu hagog o'r tu allan os ceir argyfwng; nid oes modd i ddrysau o'r fath gael eu hagog yn hawdd o'r tu allan gan blant eraill. Darperir cawodydd nad ydynt mewn ystafelloedd unigol mewn ciwbiglau unigol neu gyda llenni unigol llawn ar gyfer preifatrwydd. Oni bai fod arnynt angen cymorth neu fod angen eu goruchwyllo, mae'r plant yn cael cymryd baddon, cawod a defnyddio'r tŷ bach yn breifat. Ar gyfer unrhyw blentyn y mae angen eu helpu neu eu goruchwyllo wrth gymryd baddon, cawod neu wrth ddefnyddio'r tŷ bach, mae hynny'n cael ei wneud mewn modd sy'n rhoi cymaint â phosibl o breifatrwydd ac urddas iddynt.
- 25.6** Mae'r cyflenwadau dŵr poeth ac oer yn ddigonol ar gyfer lefelau cyffredin o ddefnydd gan y plant a'r staff.
- 25.7** Mae'r staff yn defnyddio cyfleusterau toiled ac ystafell ymolchi neu gawod ar wahân i'r rhai a ddefnyddir gan y plant.

Iechyd, diogelwch a sicrwydd

Y CANLYNIAD

Mae'r plant yn byw mewn ysgolion sy'n darparu diogelwch a sicrwydd corfforol.

SAFON 26

- 26.1 Mae camau positif yn cael eu cymryd i gadw'r plant, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel rhag perygl tân a pheryglon eraill, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar Iechyd a Diogelwch a Tân.**
- 26.2** Nid oes unrhyw beryglon sylweddol diangen i iechyd a diogelwch i'w gweld yn yr ysgol nac ar diroedd yr ysgol. Mae gosodiadau nwy yn cael eu harchwilio o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae gosodiadau ac offer trydan yn cael eu harchwilio o leiaf bob tair blynedd. Mae bwyleri'n cael eu cynnal a'u cadw bob blwyddyn.
- 26.3** Mae asesiadau risg yn cael eu cynnal, eu cofnodi'n ysgrifenedig a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'r asesiadau risg hyn yn cael eu cynnal mewn perthynas â safle a thiroedd yr ysgol (gan gynnwys ffenestri sy'n peri risg i blant neu'n cynnig cyfle i rywun ddod i mewn, manau parcio diogel ayb), gweithgareddau hysbys a gweithgareddau tebygol y plant (sef gweithgareddau a ganiateir a rhai na chaniateir mohonynt), risgiau penodol sy'n deillio o anabledau unrhyw blentyn yn yr ysgol, risgiau sy'n deillio o'r ffaith nad yw'r plant yn gallu sylweddoli natur peryglon i'w hunain, risgiau posibl i'r plant o ganlyniad i'r ffaith bod gan y cyhoedd fynediad i blant yn yr ysgol neu yn ystod gweithgareddau neu dripiâu.
- 26.4** Mae Pennaeth yr ysgol neu uwch-aelod arall o'r staff yn cynnal adolygiadau rheolaidd o sut mae'r camau a nodwyd yn sgil asesiadau risg a gynhaliwyd yn cael eu gweithredu a pha mor effeithiol ydynt.
- 26.5** Mae'r plant a'r staff yn gwybod y gweithdrefnau ar gyfer gwacáu'r ysgol mewn argyfwng, gan gynnwys y rhai sydd i'w defnyddio yn y nos, os ceir tân, ac maent yn cadarnhau eu bod wedi ymarfer y dulliau gwacáu hyn yn rheolaidd drwy gyfrwng ymarferion tân.
- 26.6** Mae ymarferion tân a phrofion rheolaidd ar y goleuadau argyfwng, y larymau tân a'r offer ymladd tân yn cael eu cynnal yn unol â'r Rheoliadau Tân ac unrhyw ganllawiau ategol a geir oddi wrth yr Awdurdod Tân. Mae unrhyw ddiffyg a nodir mewn ymarferion neu brofion yn cael ei nodi, a chymerir camau yn ôl yr angen i gywiro'r diffyg.
- 26.7** Mae'r ysgol wedi ymgynghori â'r Awdurdod Tân os oes estyniad sylweddol, newid defnydd neu addasiad ar y safle wedi bod. Mae argymhellion yr Awdurdod Tân wedi'u rhoi ar waith o fewn unrhyw amserlenni a bennwyd gan yr awdurdod hwnnw.
- 26.8** Nid yw tymheredd dŵr poeth mewn tapiau y gall plant hawdd eu niweidio fynd atynt yn uwch na 43°C. Nid yw tymheredd arwyneb rheiddiaduron a phibellau dŵr poeth y gall plant hawdd eu niweidio fynd atynt yn uwch na

43°C. Penderfynir absenoldeb hawdd niweidio plant drwy gyfrwng asesiad risg ysgrifenedig.

- 26.9** Os bydd yr ysgol yn defnyddio dyfeisiau ac offer meddygol, neu offer ar gyfer plant anabl (e.e. taclau codi, lifftiau, cadeiriau olwynion), mae gan yr ysgol drefniadau i gael hysbysiadau perygl perthnasol a rhybuddion eraill oddi wrth yr Asiantaeth Dyfeisiadau Meddygol ac ymateb iddynt ac i gynnal a chadw offer mewn cyflwr da a diogel yn rheolaidd.
- 26.10** Mae unrhyw anifeiliaid sy'n cael eu cadw yn yr ysgol ac y gall y plant fynd atynt yn cael gofal priodol i'w cadw yn rhesymol hylan, ac nid ydynt yn peri risg sylweddol i iechyd a diogelwch plant (e.e. trwy risg o anafu plant, neu ysgogi alergeddau mewn plant penodol).

Fetio Staff ac Ymwelwyr

Y CANLYNIAD

Mae'r holl staff a gwirfoddolwyr yn cael eu dewis a'u fetio'n ofalus, ac mae ymwelwyr rheolaidd â'r ysgol yn cael eu monitro er mwyn atal plant rhag cael mynediad at gamdrinwyr posibl.

SAFON 27

- 27.1 Mae trefniadau recriwtio pob staff (gan gynnwys staff atodol a'r rhai sy'n gweithio ar sail contract neu sesiwn) a gwirfoddolwr sy'n gweithio gyda phlant yn yr ysgol⁸ yn cynnwys gwiriadau drwy system wirio'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (ar lefel Safonol neu ar lefel Fanwl fel y bo'n briodol ar gyfer eu rôl yn yr ysgol), gyda chanlyniad boddhaol. Mae yna broses recriwtio foddhaol a gofnodir yn ysgrifenedig⁹.**
- 27.2** Mae system yr ysgol ar gyfer recriwtio staff (gan gynnwys staff atodol, staff o dan gontract, staff sesiwn a gwirfoddolwyr) a fydd yn gweithio gyda phlant yn yr ysgol yn cynnwys pob un o'r camau canlynol cyn penodi, a gellir gwirio bod y camau hynny wedi'u cymryd drwy edrych ar y cofnodion recriwtio a ddelir yn yr ysgol:
- 27.2.1** gwiriad o bwy yw'r person ar sail dogfen swyddogol;
 - 27.2.2** gwiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar y lefel uchaf sydd ar gael;
 - 27.2.3** o leiaf ddau dystlythyr ysgrifenedig, gan gynnwys tystlythyr gan y cyflogwr diweddaraf, gyda llythyr cais am dystlythyr sy'n gofyn yn benodol i bob canolwr ddatgan unrhyw reswm y mae'n gwybod amdano pam na ddylid cyflogi'r person i weithio gyda phlant ac na ddylid gwneud unrhyw gamddatganiad neu hepgor o bwys sy'n berthnasol i addaswydd yr ymgeisydd;
 - 27.2.4** cysylltiad uniongyrchol gan yr ysgol â phob un o'r canolwyr i wirio'r tystlythyr;
 - 27.2.5** cyfweliad, gyda chofnod ysgrifenedig o'r canlyniad;
 - 27.2.6** gwiriad ar y prawf o gymwysterau perthnasol;
 - 27.2.7** gofyniad i geiswyr roi hanes cyflogaeth llawn, ynghyd â datganiad y gall yr ysgol gysylltu ag unrhyw gyflogwr blaenorol;
 - 27.2.8** cysylltiad gan yr ysgol, os oes modd, â phob cyflogwr blaenorol y bu'r ymgeisydd yn gweithio gyda phlant neu oedolion hawdd eu niweidio ar ei ran, i wirio'r rhesymau pam y daeth y gyflogaeth i ben;

⁸ Y diffiniad o weithio gyda phant yw'r un a ddefnyddir gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000.

⁹ Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar recriwtio staff yn "Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant" 1999. Mae canllawiau ar gyfer ysgolion ar gael hefyd yn y gyfres "Boarding Briefing" a gyhoeddir gan Gymdeithas yr Ysgolion Preswyl.

- 27.2.9** esboniad am unrhyw fylchau yn y CV, gyda chofnod ysgrifenedig gan yr ysgol fod yr ysgol wedi holi am esboniadau am y bylchau a'u bod yn foddhaol.
- 27.3** Ar gyfer pob oedolyn a fydd ar ôl Ebrill 2003 yn dechrau byw ar yr un safle â phlant/myfyrwyr (er enghraifft oedolion sy'n aelodau o aelwydydd staff) ond nad ydynt yn cael eu cyflogi gan yr ysgol, mae gwiriad wedi'i gwblhau gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar y lefel safonol a all gael ei ddilysu.
- 27.4** Os nad oes gwiriadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gael ar gyfer myfyriwr staff ar gyfnod 'bwlch', mae'r ysgol yn sicrhau 'tystysgrif ymddygiad da' neu'r hyn sy'n cyfateb iddi oddi wrth awdurdodau perthnasol y wlad lle mae cartref y myfyriwr os oes cyfleusterau felly ar gael .
- 27.5** Mae cynigion i benodi staff ac eraill sy'n ddarostyngedig i'r gwiriadau recriwtio uchod yn cael eu gwneud yn amodol ar gwblhau gwiriadau Cofnodion Troseddol yn foddhaol a thystlythyrau boddhaol os na chafwyd hwy i gyd eisoes.
- 27.6** Nid yw aelodau o'r staff (nac eraill) sy'n ddarostyngedig i'r gofynion a nodir yn 27.2 yn dechrau gweithio (na phreswyllo) yn yr ysgol nes cwblhau'r holl wiriadau yn foddhaol a chael tystlythyrau boddhaol. Fel eithriad, gall aelod o staff ddechrau gweithio os yw rhai tystlythyrau neu wiriadau eto i ddod, ond mae'n rhaid cwblhau holl wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. Mewn achosion o'r fath, rhaid wrth dystiolaeth fod pob ymdrech wedi'i gwneud i fynd ar ôl y gwiriadau a'r tystlythyrau, a rhaid i'r person gael ei oruchwyllo fel nad oes ganddo fynediad sylweddol heb ei oruchwyllo at blant yn yr ysgol.
- 27.7** Cynhwysir gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a thystlythyrau yn y broses recriwtio ar gyfer unrhyw Warcheidwaid a drefnir gan yr ysgol, a phob oedolyn sy'n byw neu gweithio mewn llety a drefnir gan yr ysgol, a derbynnir canlyniad boddhaol gan yr ysgol a'i gofnodi'n ysgrifenedig cyn bod unrhyw blentyn yn cael ei leoli yn yr ysgol.
- 27.8** Mae gan yr ysgol naill ai gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt ar staff asiantaeth neu mae ganddi dystiolaeth fod yr asiantaeth wedi gweithredu'r gwiriadau angenrheidiol o fewn y 12 mis diwethaf. Mae'r ysgol wedi cymryd pob cam rhesymol ymarferol i weithredu gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar yrwyr tacsï a archebir gan yr ysgol i yrru plant yr ysgol nad yw staff yn cyd-deithio gyda hwy.

8. Staffio

Y CANLYNIAD

Mae'r plant yn derbyn gofal gan staff sy'n deall eu hanghenion ac yn gallu eu diwallu'n gyson.

Digonolrwydd Staffio

SAFON 28

- 28.1 Mae'r ysgol yn cael ei staffio bob adeg o'r dydd a'r nos, yn ôl y lefel ofynnol a bennir o dan safon 28.2 neu ar lefel uwch. Mae'r cofnodion ynghylch y staff sydd mewn gwirionedd yn gweithio yn yr ysgol yn dangos fod y lefel staffio honno wedi'i chyrraedd.**
- 28.2** Mae polisi staffio'r ysgol yn sicrhau bod y trefniadau staffio yn ddigonol i fodloni Datganiad o Ddiben yr ysgol. Mae polisi staffio'r ysgol yn datgan:
- 28.2.1** nifer y staff gofal y mae angen iddynt fod ar ddyletswydd yn y dydd (a all gynnwys niferoedd angenrheidiol gwahanol o dan wahanol amgylchiadau), gyda'r nos ac yn ystod y penwythnos;
 - 28.2.2** nifer y staff gofal y mae angen iddynt fod ar ddyletswydd yn ystod y nos, ac a oes angen iddynt fod ar ddi-hun neu'n cysgu i mewn;
 - 28.2.3** y trefniadau ar gyfer rheoli'r grŵp staff sydd ar ddyletswydd yn ystod y dydd a'r nos;
 - 28.2.4** y trefniadau ar gyfer galw am gymorth staff uwch os oes ei angen.
- 28.3** Mae lefelau staffio'r ysgol yn ystod y dydd a'r nos yn briodol i fodloni Datganiad o Ddiben yr ysgol, i ddiwallu anghenion y plant, ac i ddarparu lefelau o oruchwyliaeth i'r plant sy'n ddiogel i'r plant, i'r staff ac i aelodau o'r cyhoedd.
- 28.4** Mae natur dilyniant y staff yn sicrhau nad amherir yn ormodol ar berthnasoedd y plant. Rhaid i nifer y staff o asiantaeth allanol beidio â bod yn fwy na hanner y staff ar ddyletswydd ar unrhyw un adeg yn ystod y dydd neu'r nos yn yr ysgol, ac nid yw unrhyw aelod o'r staff o asiantaeth allanol i fod ar ei ben ei hun ar ddyletswydd yn ystod y nos yn yr ysgol.
- 28.5** Mae'r ysgol yn cynyddu nifer y staff sy'n gofalu am blant uwchlaw'r isafswm sy'n angenrheidiol yn ôl y polisi staffio os yw anghenion neu amgylchiadau eraill y plant yn gofyn am hynny.
- 28.6** Ym mhob achos lle mae plant o dan 15 yn preswyllo yn yr ysgol, rhaid cael o leiaf ddau o staff ar ddyletswydd rhwng 7yb ac 11yh bob dydd y bydd y plant yn preswyllo yno. Os oes un aelod o'r staff ar ddyletswydd ar ddi-hun neu wrth gysgu i mewn yn ystod y nos (11yh tan 7yb) mae asesiad risg wedi'i gynnal ac wedi'i gofnodi'n ysgrifenedig (e.e. mewn lög dyddiol), i nodi unrhyw risgiau tebygol i'r plant, i'r staff ac i aelodau o'r cyhoedd, ac mae'r asesiad wedi dangos nad oes yna lefel annerbyniol o risg yn sgil trefniant o'r fath.

- 28.7** Mae yna un oedolyn o leiaf â gofal pob grŵp adnabyddadwy o blant, yn yr ysgol neu'r tu allan iddi, gyda'r modd i alw am gymorth di-oed gan o leiaf un aelod arall o'r staff os bydd ei angen, ac mae'r plant yn gallu adnabod yr aelod(au) staff sydd ar ddyletswydd ac yn gyfrifol amdanynt, a sut y gellir cysylltu â hwy os oes angen.
- 28.8** Os oes plant o dan 15 yn preswyllo yn yr ysgol, mae o leiaf un aelod o'r staff yn bresennol, yn cysgu i mewn neu ar ddyletswydd ar ddi-hun yn y nos, ym mhob uned breswyl yr ysgol gyda'r nos, ac yn gyfrifol am y plant yn yr uned honno, ac mae modd iddynt gysylltu ag ef ar unrhyw adeg o'r nos. Os oes plant 15 oed neu drosodd yn preswyllo yno, mae unrhyw benderfyniad ynghylch a oes angen staff yn bresennol yn ystod y nos wedi bod yn destun asesiad risg ysgrifenedig.
- 28.9** Os nad oes ond un aelod o'r staff gyda phlentyn neu grŵp o blant naill ai yn yr ysgol neu gyda phlant i ffwrdd o'r ysgol, mae gan yr aelod staff hwnnw fodd i alw am gymorth gan aelod arall o'r staff os bydd ei angen.
- 28.10** Mae gan yr ysgol drefniadau clir a phriodol ar gyfer goruchwyllo, ac os oes angen, hebrwng plant ar deithiau sy'n cael eu trefnu gan yr ysgol, ac mae'r trefniadau hynny yn ddigonol i ddiwallu anghenion y plant ac i ddarparu goruchwyliaeth a rheolaeth resymol yn ystod y daith.
- 28.11** Mae'r trefniadau staffio ar gyfer salwch ac absenoldeb staff yn ddigonol i gadw at bolisi staffio'r ysgol.
- 28.12** Mae'r grŵp o staff sydd mewn cysylltiad beunyddiol â'r plant yn cynnwys staff o'r ddau gender. Mewn achosion prin, os yw Datganiad o Ddiben yr ysgol yn ei gwneud yn glir fod yr ysgol yn defnyddio staff o un gender yn unig, mae canllawiau clir yn cael eu darparu a'u gweithredu ar sut y caiff y plant eu galluogi i gynnal perthnasoedd ag aelodau o'r gender arall i'r grŵp staff.
- 28.13** Mae gan y staff gofnod ysgrifenedig yn dangos pa blant ac oedolion sy'n cysgu ym mhob uned breswyl bob nos ac mae'r cofnod hwnnw ar gael yn hwylus.

Hyfforddi a datblygu staff

Y CANLYNIAD

Mae'r plant yn derbyn gofal gan staff sydd wedi'u hyfforddi i ddiwallu eu hanghenion.

SAFON 29

29.1 Mae'r staff yn cael cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad sy'n rhoi iddynt y medrau sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion y plant ac i fodloni diben yr ysgol.

29.2 Mae gan yr ysgol raglen o hyfforddiant sefydlu i'r holl staff gofal a'r holl staff atodol sydd newydd eu penodi (gan gynnwys unrhyw staff asiantaeth, staff dros dro, staff gwirfoddol a staff sy'n fyfyrwyr), sy'n cynnwys canllawiau ar amddiffyn plant. Mae staff newydd yn cael eu goruchwylio, maent yn glir ynghylch atebolrwydd a llinellau adrodd, a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn mewn perthynas ag argyfyngau, iechyd a diogelwch, amddiffyn plant a hysbysu digwyddiadau.

29.3 Mae gan yr holl staff yn yr ysgol gyfle i gael hyfforddiant parhaus ac, os yw'n gymwys, hyfforddiant ôl-cymhwyso mewn gofal plant, ar gyfer staff newydd a staff profiadol.

29.4 Yn ddarostyngedig i anghenion y staff unigol, mae rhaglenni hyfforddi ar gael sy'n rhoi sylw i'r materion y manylir arnynt yn Atodiad 2.

29.5 Gwneir cynllun gyda phob aelod o staff i ddynodi hyfforddiant neu ddatblygu sydd ei angen a sut i foddhau'r anghenion hynny.

29.6 Mae staff sy'n gweithio yn rhinwedd unrhyw swydd gyda phlant yn yr ysgol wedi cael hyfforddiant sy'n briodol i'w swyddogaeth yn yr ysgol ynglŷn ag anghenion, anawsterau neu anabledau'r math o blant sy'n cael eu lletya yn yr ysgol, ynglŷn ag ymateb yn briodol i anawsterau, anabledau neu ymddygiad y plant a'u rheoli, ac yn ynghylch unrhyw ddull cyfathrebu arbennig sy'n cael ei ddefnyddio gan un neu rhagor o blant yn yr ysgol.

Goruchwyliaeth a chymorth i'r staff

Y CANLYNIAD

Mae'r plant yn derbyn gofal gan staff sydd eu hunain yn cael eu cynorthwyo a'u harwain wrth ddiogelu a hybu lles y plant.

SAFON 30

- 30.1 Mae'r holl staff, gan gynnwys y staff domestig a Phennaeth yr ysgol, yn atebol yn briodol ac yn cael cymorth priodol.**
- 30.2** Mae'r holl staff ac eraill sy'n gweithio yn yr ysgol (gan gynnwys yr athrawon, staff gofal, staff dros dro a staff atodol) yn cael eu goruchwyllo un i un gan uwch-aelod o'r staff am o leiaf awr a hanner bob hanner tymor. Dylai'r cyfnod yma o oruchwyliaeth fod yn ystod amser sydd wedi ei neilltuo yn arbennig, sydd yn ddigonol i ddelio â phob mater yn ymwneud â pherfformiad a datblygiad.
- 30.3** Mae cofnodion yn cael eu cadw o'r camau y cytunir arnynt gan y goruchwylwr a'r aelod staff ar ôl cyfarfodydd goruchwyllo.
- 30.4** Mae'r goruchwyllo'n rhoi sylw i'r materion canlynol:
- 30.4.1** rôl yr aelod staff, eu gwaith gydag unrhyw blentyn y mae'r aelod staff yn weithiwr allweddol iddynt;
 - 30.4.2** eu hymatebion i blant a'u dulliau o weithio gyda phlant;
 - 30.4.3** swyddogaeth yr aelod staff, gan gynnwys eu hatebolrwydd, wrth gyflawni Datganiad o Ddiben yr ysgol;
 - 30.4.4** gwaith yr aelod staff wrth gyflawni cynlluniau lleoliad ar gyfer plant unigol;
 - 30.4.5** y mesur o ymglymiad personol, teimladau, pryderon a straen;
 - 30.4.6** datblygu a hyfforddi staff;
 - 30.4.7** gosod a chynnal safonau;
 - 30.4.8** adborth ar berfformiad;
 - 30.4.9** canllawiau ar dasgau cyfredol a thasgau newydd.
- 30.5** Mae trefniadau addas yn bodoli ar gyfer goruchwyliaeth broffesiynol dros Bennaeth yr ysgol.
- 30.6** Mae perfformiad yr holl staff yn cael ei werthuso'n unigol ac yn ffurfiol bob blwyddyn gan eu rheolwr llinell (yn achos athrawon, fe fydd hyn fel rheol yn rhan o Reoli Perfformiad ac nid oes angen proses ar wahân). Mae ffeil bersonol y cyflogai yn cynnwys cofnod o'r gwerthusiad (neu o'r Rheolaeth Perfformiad) gan ddangos y lefel berfformiad a gyrhaeddwyd, targedau ar

gyfer y flwyddyn nesaf, a'r anghenion hyfforddi y cytunwyd arnynt ac sydd i'w bodloni o fewn y flwyddyn ganlynol fel rhan o Gynllun Datblygu Personol yr unigolyn.

- 30.7** Mae'r staff yn cael canllawiau ysgrifenedig ar weithdrefnau ac arferion, sef canllawiau a gedwir yn gyfoes, sy'n hygyrch, ac sydd, lle bo'n gymwys, yn ymdrin â'r materion y manylir arnynt yn Atodiad 3.
- 30.8** Mae yna linellau atebolrwydd clir o Bennaeth yr ysgol i'r llywodraethwyr neu'r person neu'r corff arall sy'n gyfrifol am redeg yr ysgol (ac eithrio os yw'r Pennaeth yn berchennog ar yr ysgol hefyd). Mae'r holl staff yn gwybod i bwy y maent yn atebol.
- 30.9** Mae'r holl staff wedi cael disgrifiadau swydd ysgrifenedig a manylebau person ysgrifenedig sy'n gysylltiedig â Datganiad o Ddiben cyfredol yr ysgol a'r rheini'n datgan yn glir y dyletswyddau a ddisgwylir oddi wrthynt ar hyn o bryd a'u llinell atebolrwydd. Mae disgrifiadau swyddi yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd.
- 30.10** Mae'r rotas yn cael eu trefnu i ganiatáu i'r staff gyfarfod â'i gilydd o leiaf unwaith y pythefnos. Mae cyfarfodydd staff yn cynnwys trafodaeth ynglŷn â gwaith yr ysgol wrth ofalu am blant unigol a rheolaeth y grŵp presennol o blant, ynghyd ag adolygiad o arferion yr ysgol. Mae'r staff atodol yn mynychu rhan o leiaf o'r cyfarfodydd yma yn rheolaidd. Mae yna agenda a chofnodion ar gyfer y cyfarfodydd. Mae'r ysgolion yn cynnal cyfarfod llawn i'r staff o leiaf unwaith y tymor.
- 30.11** Os yw Datganiad o Ddiben yr ysgol neu'r ethos y mae wedi'i ddatgan neu ei dull gweithio y mae wedi ei ddatgan yn gofyn am ganllawiau a chymorth arbenigol allanol ar gyfer y staff, trefnir bod hyn ar gael naill ai yn unigol neu drwy gyfarfodydd staff.
- 30.12** Nid yw'r staff yn ysmegu tra byddant gyda'r disgyblion, nac yn yfed alcohol tra byddant ar ddyletswydd (gan gynnwys yn ystod seibiannau yn eu diwrnod gwaith).

9. Trefniadaeth a Rheolaeth

Trefniadau staffio

Y CANLYNIAD

Mae'r plant yn derbyn y gofal a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen gan staff cymwys.

SAFON 31

- 31.1 Mae'r ysgol yn cael ei threfnu, ei rheoli a'i staffio mewn modd sy'n cyflwyno'r gofal plant gorau posibl.**
- 31.2** Erbyn 2006, bydd gan y Pennaeth Gofal (neu'r deiliad swydd cyfatebol) o leiaf dair blynedd o brofiad ar lefel uchel mewn lleoliad gofal plant a chymhwyster proffesiynol sy'n berthnasol i waith gyda phlant, y mae'n rhaid iddo fod ar lefel 4 NVQ neu'n Ddiploma Gwaith Cymdeithasol neu'n gymhwyster arall sy'n dangos y cymwyseddau ar lefel yr NVQ.
- 31.3** Mae gan yr aelodau staff sydd ar y roster i fod â gofal am yr ysgol a'r staff eraill ar adegau penodol (ee fel arweinwyr shifftiau gofal) brofiad perthnasol sylweddol o weithio yn yr ysgol neu mewn ysgol debyg.
- 31.4** Erbyn 2006, bydd cymhareb o 80% o leiaf o'r staff gofal wedi cwblhau eu Lefel 3 yn NVQ Gofalu am Blant a Phobl Ifanc neu bydd ganddynt gymwysterau sy'n dangos yr un cymwyseddau â'r NVQ. Bydd gan staff gofal newydd a gymerir ymlaen o fis Ionawr 2004 ymlaen gymwysterau o'r fath neu byddant yn dechrau gweithio tuag atynt o fewn tri mis ar ôl ymuno â'r ysgol.
- 31.5** Mae amser wedi'i amserlennu ar rotas staff i sicrhau bod y canlynol yn digwydd heb beryglu'r gofal cyffredinol i blant:
- 31.5.1** goruchwyliaeth staff;
 - 31.5.2** cyfarfodydd staff;
 - 31.5.3** sesiynau trosglwyddo;
 - 31.5.4** cwblhau cofnodion;
 - 31.5.5** cynllunio a chyflawni rhaglenni gofal;
 - 31.5.6** treulio amser yn cydymweithio â phlant unigol;
 - 31.5.7** datganiadau adolygiadau blynyddol;
 - 31.5.8** adolygiadau ar gynlluniau addysg unigol;
 - 31.5.9** adolygiadau trawsnewid.
- 31.6** Mae oriau gwaith y staff yn gyson â gofynion Datganiad o Ddiben yr ysgol ac yn bodloni gofynion y Gyfarwydddeb Amser Gweithio.

- 31.7** Nid yw plant yn cael cyfrifoldeb dros blant eraill yn yr ysgol, na chyfrifoldebau i wneud yn iawn am unrhyw ddiffyg staff yn yr ysgol. Mae plant sy'n cael cyfrifoldeb dros dasgau penodol yn yr ysgol yn cael eu goruchwyllo'n ddigonol gan y staff i sicrhau eu bod yn chwarae eu rhan yn briodol, heb gam-drin y rhan honno (e.e. drwy fwlio eraill).
- 31.8** Yn sgil unrhyw honiad neu amheuaeth bod plentyn wedi'i gam-drin gan aelod staff neu berson arall sy'n gweithio yn yr ysgol, mae penderfyniad a ddylid atal yr aelod staff o'i swydd, wrth ddisgwyl ymchwiliad ac fel cam niwtral mewn perthynas â chanlyniad yr ymchwiliad neu unrhyw benderfyniad canlynol, wedi'i wneud gan roi ystyriaeth yn gyntaf i fuddiannau'r plant yn yr ysgol.
- 31.9** Mae gan yr ysgol ymatebion cynlluniedig i ystod o argyfyngau rhagweladwy (e.e. achosion o salwch, tanau, honiadau neu gŵynion difrifol, damweiniau sylweddol, prinderau staff, a phroblemau rheoli yn yr ysgol neu'r tu allan iddi), ac mae unrhyw ddigwyddiadau neu argyfyngau o bwys ers yr arolygiad diwethaf wedi'u rheoli'n foddhaol.
- 31.10** Os yw'n gymwys o dan Reoliadau perthnasol, mae'r ysgol yn sicrhau bod ei staff gofal wedi'u cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru.

Rheoli'r busnes

Y CANLYNIAD

Mae'r plant yn mwynhau sefydlogrwydd ysgolion sy'n cael eu rhedeg yn effeithlon.

SAFON 32

- 32.1 Mae Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (neu arolygiaeth arall y mae gan yr ysgol gytundeb arolygu â hi ar gyfer arolygiadau'r Ddeddf Plant) yn cael gwybod o fewn 24 awr os daw derbynnydd, datodwr neu ymddiriedolwr mewn methdaliad yn gyfrifol am yr ysgol. Pan ddeuant yn gyfrifol am yr ysgol mae personau o'r fath yn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i gael ei rheoli o ddydd i ddydd gan Bennaeth sy'n bodloni'r gofynion ynghylch recriwtio Pennaeth a chymwysterau Pennaeth o dan y Safonau hyn. Rhaid i Bennaeth dros dro o'r fath sicrhau bod y ffordd y mae'r ysgol yn gweithredu yn bodloni gofynion y Safonau hyn mewn perthynas â gofal beunyddiol y plant sy'n cael eu lletya yn yr ysgol.**
- 32.2** Mae Pennaeth yr ysgol neu uwch-aelodau staff a ddirprwyir gan y Pennaeth i wneud hynny yn monitro ac yn llofnodi'r cofnodion canlynol fel y nodir, i nodi unrhyw batrymau neu faterion y mae angen cymryd camau ynglŷn â hwy, ac yn cymryd unrhyw gamau dilynol neu ganlyniadol sy'n angenrheidiol:

Bob hanner tymor

- 32.2.1** Cynllun lleoliad pob plentyn;
- 32.2.2** Rostrau dyletswydd fel y cawsant eu gweithio mewn gwirionedd;
- 32.2.3** Bwydlenni;
- 32.2.4** Damweiniau ac anafiadau;
- 32.2.5** Meddyginiaeth, triniaeth a chymorth cyntaf yn yr ysgol;
- 32.2.6** Honiadau neu amheuon o gam-drin a'u canlyniadau;
- 32.2.7** Cŵynion a'u canlyniadau;
- 32.2.8** Ymwelwyr â'r ysgol ac â phlant yn yr ysgol;
- 32.2.9** Hysbysiadau i'r corff arolygu ynghylch digwyddiadau;
- 32.2.10** Absenoldeb plant heb awdurdod;
- 32.2.11** Sancsiynau a ddefnyddiwyd;
- 32.2.12** Defnyddio ymyriadau corfforol.

Bob tymor

- 32.2.13** Cofnodion recriwtio staff a chynnal y gwiriadau angenrheidiol ar gyfer unrhyw staff sydd newydd eu recriwtio;
- 32.2.14** Asesiadau risg â'r camau dilynol;
- 32.2.15** Adneuo a thynnu arian a phethau gwerthfawr a roddwyd i'w cadw'n ddiogel;
- 32.2.16** Ymarferion tân a phroffion larymau, goleuadau argyfwng ac offer tân;
- 32.2.17** Cofnodion cyfarfodydd staff.

Bob blwyddyn

- 32.2.18** Gwerthusiadau staff a rheolaeth perfformiad.
- 32.3** Mae camau wedi'u cymryd os oes eu hangen mewn perthynas ag unrhyw grynodiad, tuedd neu batrwm yn y materion neu'r digwyddiadau a gofnodwyd (e.e. ynghylch lleoedd penodol, unigolion penodol neu amserau penodol).
- 32.4** Unwaith y flwyddyn mae Pennaeth yr ysgol yn cynnal adolygiad o'r ffrodd y mae darpariaeth les yr ysgol ar gyfer disgyblion preswyl yn gweithredu ac yn cael adnoddau, mewn perthynas â'i Datganiad o Ddiben, ei bolisi staffio, y cynlluniau lleoliad ar gyfer plant unigol, ac asesiad mewnol o'i chydymffurfedd â'r Safonau hyn, ac yn ei gofnodi'n ysgrifenedig, ac yn cyflwyno'r adroddiad hwnnw i'r corff llywodraethu neu berchennog arall yr ysgol. Os yw'n briodol, gall adroddiad o'r fath gael ei gynnwys mewn adolygiad ar yr ysgol gyfan. Mae eitemau a nodir fel rhai y mae angen rhoi sylw iddynt yn cael eu hymgorffori yng nghynllun datblygu'r ysgol.
- 32.5** Mae'r ysgol wedi ystyried y rhesymau am unrhyw enghreifftiau o ymglymu'r heddlu yn aml gyda phlant o'r ysgol, neu drosiant uchel ymhlith y staff. Mae unrhyw gamau dilynol sy'n angenrheidiol yn cael eu cymryd.

Monitro ar ran y person sy'n rhedeg yr ysgol

Y CANLYNIAD

Mae'r corff llywodraethu, yr ymddiriedolwyr, yr awdurdod lleol, y perchennog neu'r person neu'r corff arall sy'n rhedeg yr ysgol yn monitro lles y plant yn yr ysgol.

Safon 33

- 33.1 Mae'r corff llywodraethu, yr ymddiriedolwyr, yr awdurdod lleol, y perchennog neu'r person neu'r corff arall sy'n rhedeg yr ysgol yn cael adroddiad ysgrifenedig ar sut mae'r ysgol yn cael ei rhedeg oddi wrth berson sy'n ymweld â'r ysgol ar eu rhan bob hanner tymor.**
- 33.2** Mae'r corff llywodraethu, yr ymddiriedolwyr, y bartneriaeth neu'r corff sy'n gyfrifol am redeg yr ysgol yn trefnu bod un o'u plith neu un o gynrychiolwyr y corff hwnnw nad yw'n gweithio yn yr ysgol, nac yn ei rheoli'n uniongyrchol, yn ymweld â'r ysgol unwaith bob hanner tymor ac yn cwblhau adroddiad ysgrifenedig ar sut mae'r ysgol yn cael ei rhedeg. Os oes gan yr ysgol berchennog unigol, mae'r person hwnnw yn gwneud ymweliadau o'r fath yn bersonol, os nad hwy yw'r Pennaeth hefyd.
- 33.3** Mae'r mwyafrif o'r ymweliadau sy'n cyfrif tuag at fodloni'r gofyniad uchod yn cael eu cynnal yn ddi-rybudd. Maent yn cynnwys
- gwirio cofnodion yr ysgol o bresenoldeb, cŵynion, sancsiynau a defnyddio ymyriadau corfforol,
 - asesu cyflwr ffisegol adeilad, dodrefn ac offer yr ysgol, a
 - chyfle i unrhyw blentyn neu aelod staff sy'n dymuno cyfarfod â'r ymwelydd wneud hynny (yn breifat os dymunant).
- 33.4** Mae adroddiadau ysgrifenedig ar yr holl ymweliadau uchod yn cael eu rhoi i Bennaeth yr ysgol o fewn pythefnos ar ôl yr ymweliad. Os yw'r ysgol yn cael ei rhedeg gan gorff llywodraethu, mudiad, neu bartneriaeth, mae adroddiadau'n cael eu rhoi i bob aelod o'r corff hwnnw (neu i bwyllgor priodol y corff hwnnw), o fewn pythefnos ac fel y'u hysgrifennwyd gan yr ymwelydd heb eu diwygio na'u crynhoi.
- 33.5** Trefnir bod adroddiadau ar yr holl ymweliadau uchod ar gael i'r arolygwyr yn yr ysgol a chymerir camau, a chofnodir y camau hynny pan fyddant yn cael eu cymryd, gan yr ysgol ar argymhellion neu faterion o bryder a godir yn yr adroddiadau.
- 33.6** Trefnir bod copïau o adroddiadau ar arolygiadau gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru neu arolygiaeth arall y mae gan yr ysgol cytundeb arolygu â hi o dan y Ddeddf Plant, ar gael gan yr ysgol i'r holl aelodau staff, i'r plant sy'n preswyllo yn yr ysgol, i rieni ac i'r awdurdodau sydd wedi lleoli'r plant presennol neu sy'n ystyried lleoli plentyn yno.

Atodiad 1

Gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer ymateb i honiadau neu amheuon cam-drin

1. Gofyniad bod honiadau neu amheuon o gam-drin, neu niwed sylweddol gwirioneddol neu debygol arall i blentyn, yn cael eu cyfeirio o fewn 24 awr (yn ysgrifenedig neu gyda chadarnhad ysgrifenedig ar ôl cyfeiriad ffôn) at yr adran gwasanaethau cymdeithasol lleol, yn hytrach nag ymchwiliad gan yr ysgol.
2. Gofyniad bod camau dilynol, gan gynnwys parhau i amddiffyn plant yng ngoleuni'r honiad neu'r amheuaeth, a phryd a sut i roi gwybod i unrhyw berson sy'n destun yr honiad neu'r amheuaeth, ac i rieni pob plentyn sydd o dan sylw, yn cael eu hystyried ar y cyd rhwng yr ysgol a'r adran gwasanaethau cymdeithasol lleol.
3. Rhoi gwybod i unrhyw awdurdodau sydd wedi lleoli'r plentyn/plant o dan sylw am unrhyw honiad neu amheuaeth o gam-drin, a bod unrhyw ymholiadau amddiffyn plant (o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989) sy'n cynnwys yr ysgol wedi'u cychwyn ac am eu canlyniad.
4. Rhoi gwybod yn brydlon i Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru fod unrhyw ymholiadau amddiffyn plant wedi'u cychwyn ac am eu canlyniad.
5. Ystyried mesurau a all fod yn angenrheidiol i amddiffyn plant unigol yn sgil honiad neu amheuaeth o gam-drin.
6. Y gofyniad y dylai staff neu eraill sy'n gweithio yn yr ysgol ac yn derbyn honiad o gam-drin osgoi gofyn cwestiynau arweiniol neu roi gwarantau amhriodol ynghylch cyfrinachedd.
7. Gofyniad i roi gwybod i'r Heddlu am unrhyw dystiolaeth sy'n hysbys bod plant yn dechrau ymwneud â phuteinio, neu fod personau diawdurdod yn codi plant, yn cysylltu â phlant yn yr ysgol, neu'n cael eu gweld yn ceisio cysylltu â phlant y tu allan i'r ysgol.
8. Gofyniad bod cofnodion ysgrifenedig yn cael eu gwneud a'u cadw am unrhyw honiadau neu amheuon o gam-drin ac o'r camau a gymerir.
9. Cyfarwyddiadau i'r staff ynghylch y camau sydd i'w cymryd os cânt wybod am honiad neu amheuaeth o gam-drin.
10. Sicrhau y caiff y staff a'r plant wybodaeth am sut i gysylltu'n uniongyrchol ag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru i godi unrhyw bryderon sydd ganddynt am arferion yn yr ysgol sy'n rhoi plant mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu niweidio'n ddifrifol.
11. Y gofyniad i'r holl staff a phawb arall sy'n gweithio yn yr ysgol (gan gynnwys staff asiantaethau) roi gwybod i'r corff briodol am unrhyw bryderon a all fod ganddynt am arferion yn yr ysgol, neu ymddygiad cydweithwyr, sydd yn eu barn hwy yn debygol o roi'r plant mewn perygl o gael eu cam-drin neu o ddioddef niwed difrifol arall.
12. Gwarant y gellir troi at y gweithdrefnau mewn ffyrdd nad ydynt yn rhagfarnu sefyllfa a rhagolygon unrhyw un sy'n chwythu'r chwiban os ydynt wedi rhoi gwybod am honiad neu bryder yn ddiwyll.
13. Mae'r gweithdrefnau'n gwneud y plant yn ymwybodol nad oes modd gwarantu cyfrinachedd bob amser.

Atodiad 2

Rhaglenni hyfforddi i'r staff

1. Datblygiad plant
2. Medrau gofal plant preswyl a merdrau gwaith tîm
3. Dulliau gofal plant penodol a'r medrau sy'n briodol ar gyfer diben a swyddogaeth yr ysgol
4. Defnyddio dulliau rheoli positif a phriodol dros blant er eu lles eu hunain ac er mwyn amddiffyn eraill
5. Y sancsiynau a ganiateir ac a waherddir
6. Defnyddio ymyriadau corfforol
7. Amddiffyn plant
8. Materion hil, ethnigrwydd, crefydd a diwylliant
9. Ymdrin â rhywioldeb
10. Addysg iechyd sy'n berthnasol i blant sy'n tyfu gan gynnwys deiet a maethiad
11. Goblygiadau HIV ac AIDS wrth ofalu am blant
12. Cyfathrebu â phlant, gan gynnwys plant ag anableddau
13. Iechyd a diogelwch yn y gwaith, gan gynnwys hylendid bwyd a diogelwch gyda meddyginiaethau
14. Hylendid bwyd
15. Cymorth Cyntaf a diogelwch gyda meddyginiaeth
16. Deddf Plant 1989 a deddfwriaeth gysylltiedig arall, canllawiau'r llywodraeth a chanllawiau Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru
17. Darparu gweithgareddau pwrpasol a difyr y tu allan i amser dosbarth
18. Goruchwylio'r staff
19. Technegau cyfweld
20. Gweithdrefnau ar gyfer cwyno a chyflwyno sylwadau
21. Gweithio gyda theuluoedd.

Atodiad 3

Polisiau sydd i fod ar gael i'r staff gyda gweithdrefnau a chanllawiau fel y bo'n briodol

- 1 Derbyn plant a'u croesawu
- 2 Dulliau gofalu a rheoli
- 3 Sancsiynau a ganiateir
- 4 Defnyddio ymyriadau corfforol ac ymdrin ag ymosodedd a thrais
- 5 Cofnodi achosion a'r cyfle i weld cofnodion
- 6 Llunio cynlluniau lleoli neu gynlluniau eraill a'u diwygio
- 7 Cyfle cyfartal
- 8 Atal bwlio
- 9 Cadw llyfrau lög a dyddiaduron
- 10 Cyfrinachedd
- 11 Gweinyddu cyllid (arian mân) a diogelwch
- 12 Trwsio a chynnal-a-chadw
- 13 Iechyd a diogelwch gan gynnwys rhagofalon tân a gweithdrefnau argyfwng
- 14 Mynd i'r afael â risgiau a nodir trwy asesiadau risg yr ysgol
- 15 I ba raddau y gall y cyfan neu ran o'r safle gael ei gloi fel mesur diogelwch
- 16 Amddiffyn plant ac ymateb i honiadau neu amheuon ynghylch camdrinaeth
- 17 Trefniadau ar gyfer rheoli, hebrwng a fetio ymwelwyr yn yr ysgo
- 18 Ymwybyddiaeth HIV/AIDS, cyfrinachedd a rheoli heintiau
- 19 Trin plant sydd wedi'u cam-drin
- 20 Trefnu rostrau a throsglwyddo rhwng shifftiau
- 21 Cysgu i mewn, goruchwyllo amser gwely a goruchwyllo'r nos
- 22 Cysylltiadau corfforol â'r plant a threulio amser ar eich pen eich hun gyda phlant
- 23 Arferion gofal tuag at blant o'r rhyw arall
- 24 Anghenion gofal penodol plant o grwpiau ethnig lleiafrifol
- 25 Arferion yn yr ysgol i fynd i'r afael â hiliaeth
- 26 Gweithdrefnau disgyblu a chwyno'r staff
- 27 Awdurdod dirprwyedig a hysbysiadau i'r uwch-staff
- 28 Lleoliadau
- 29 Adolygiadau
- 30 Cymryd risgiau
- 31 Ymdrin â rhywioldeb a pherthnasoedd personol
- 32 Gweithio gyda rhieni/gofalwyr
- 33 Cymorth Cyntaf a rhoi a storio meddyginiaethau
- 34 Y gweithdrefnau cwyno a chyflwyno sylwadau
- 35 Y polisi ysmegu
- 36 Y polisi alcohol
- 37 Rhoi a derbyn rhoddion
- 38 'Chwythu'r chwiban' gan staff.

Geirfa

Lluniwyd yr eirfa hon i helpu darllenwyr i ddeall y safonau. Nid oes unrhyw rym cyfreithiol i'r diffiniadau.

Adolygiad Statudol

Adolygiad o ofal a chynllun gofal plentyn sy'n cael ei gyflawni, yn ôl gofynion Rheoliadau o dan Ddeddf Plant, gan awdurdod lleoli'r plentyn.

Amddiffyn Plant

Cymryd camau rhesymol i leihau'r perygl o gamdriniaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol, esgeulustod neu niwed sylweddol i blentyn, galluogi plant a staff i godi pryderon ynghylch camdriniaeth gwirioneddol neu bosibl neu niwed sylweddol, ac ymateb yn briodol i honiadau, digwyddiadau neu amheuon o gamdriniaeth neu niwed sylweddol i blentyn – yn yr ysgol, yn y cartref, neu y tu allan i'r ysgol neu'r cartref.

Amser Rhydd

Amser y tu allan i amser addysgu, cyfnodau paratoi ac amser gweithgareddau sydd wedi'u trefnu, pan fydd disgyblion yn gallu penderfynu drostynt hwy eu hunain sut i'w dreulio (o fewn rheswm), naill ai drwy ddewis rhwng y gweithgareddau dewisol sydd ar gael, neu drwy ddewis cymdeithasu neu dreulio amser ar eu pennau eu hunain.

Ar ddi-hun (dyletswydd nos)

Pan fydd aelod o'r staff ar ddyletswydd gyda'r nos yn yr ysgol (neu mewn tŷ neu uned breswyl unigol) yn aros ar ddi-hun ac yn hollol ar gael ac yn goruchwyllo'r safle ar plant bob amser drwy gydol cyfnod eu dyletswydd nos, yn hytrach na chysgu i mewn neu aros mewn ystafell cysgu i mewn a'u bod yn cael eu deffro ond pan fydd angen.

Asesiad Risg

Y broses o nodi peryglon i ddiogelwch neu les plant, gan amcangyfrif pa mor ddifrifol â pha mor debygol ydynt, a nodi mesurau rhesymol i gadw peryglon diangen i'r lleiaf posibl, eu cofnodi'n ysgrifenedig fel sail ar gyfer cynllun gweithredu a gwneud penderfyniadau i leihau peryglon diangen i blant.

Atal

Defnyddio dull ymyrryd neu rym corfforol rhesymol i atal anaf neu niwed difrifol i eiddo.

Atgyfnerthiad Cadarnhaol

Canlyniadau cadarnhaol ar gyfer ymddygiad neu gynnydd derbyniol plentyn, sydd wedi'u bwriadu i gydnabod ac annog ymddygiad neu gynnydd o'r fath.

Awdurdod Lleoli

Awdurdod gwasanaethau cymdeithasol neu awdurdod addysg neu gorff gwirfoddol lleol sydd wedi trefnu i'r plentyn fynychu'r ysgol a phreswyllo ynddi; yr awdurdod sy'n gyfrifol am wneud y trefniant hwnnw a'i fonitro, yn hytrach na'r unig awdurdod cyllido ar gyfer y lleoliad o reidrwydd.

Bwlio

Sylwch fod y Safonau yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion lunio eu diffiniad eu hunain o fwlio, a all adlewyrchu materion ynglŷn â'r ysgol unigol neu ei disgyblion. Yn gyffredinol, byddai bwlio yn y cyd-destun hwn yn cynnwys achosi poen, gofid, pryder, gwaradwydd neu ddieithriad cymdeithasol yn fwriadol neu mewn ffordd gydnabyddedig i un disgybl gan un neu ragor o ddisgyblion eraill, drwy ddulliau corfforol neu eiriol, neu drwy niweidio eiddo neu ei golli.

Cadw Golwg yn Ddirgel

Unrhyw ddull o arsylwi ar blant, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ddulliau mecanyddol neu electronig, nad yw'r plant o dan sylw yn hollol ymwybodol ohonynt.

CAFCASS

Corff cenedlaethol sy'n darparu Gwarcheidwaid i gynrychioli buddiannau plant mewn achosion llys penodol.

Corff Llywodraethu Cenedlaethol (ar gyfer gweithgaredd)

Y corff neu'r gymdeithas genedlaethol neu, os oes mwy nag un, y corff neu'r gymdeithas arweiniol gydnabyddedig, sy'n pennu cymwysterau ar gyfer hyfforddi a goruchwyllo chwaraeon neu weithgareddau, ynghyd â chanllawiau ar eu hymarfer yn ddiogel.

Cosbau Mympwyol

Cosbau nad ydynt wedi'u cymeradwyo ym mholisi disgyblu'r ysgol, ond sy'n cael eu defnyddio gan unigolion yn erbyn plant.

Cynllun Amddiffyn Plant

Cynllun sy'n nodi strategaeth a chymau sydd i'w cymryd gan (o bosibl) nifer o asiantaethau ac unigolion i amddiffyn plentyn sydd mewn perygl o niwed sylweddol. Mae'n debyg o ddilyn ymchwiliad amddiffyn plant.

Cynllun Datblygu Personol

Cynllun cytûn sy'n diffinio'r anghenion o ran hyfforddiant a chymorth, dulliau cynlluniedig o ddiwallu'r rhain, a nodau aelod staff sy'n gysylltiedig â'r gwaith.

Cynllun Datblygu Ysgol

Cynllun y cytunir arno ar gyfer gweithrediad, safle, cyllid yr ysgol gyfan ac unrhyw newidiadau iddi.

Cynllun Gofal

Cynllun y cytunir arno ar gyfer gofalu am blentyn a diwallu anghenion presennol a dyfodol y plentyn hwnnw, sy'n cael ei wneud gan awdurdod lleoli o dan ofynion y Ddeddf Plant.

Cynllun Lleoli

Cynllun cytûn sy'n diffinio sut y bwriedir gofalu am blentyn bob dydd yn yr ysgol, gan gynnwys diwallu anghenion y plentyn ac ymateb i anawsterau'r plentyn, a hynny'n gyson â Datganiad o Ddiben cyffredinol yr ysgol a'r Cynllun Gofal cyffredinol ar gyfer y plentyn o dan sylw sy'n cael ei lunio gan ei Awdurdod Lleoli.

Cysgu i Mewn

Staff sy'n gyfrifol am ddisgyblion mewn tŷ neu uned gyda'r nos, ond sy'n cysgu yn y tŷ neu'r uned ac sydd 'ar alwad' i'w deffro os bydd angen.

'Chwythwr Chwiban'

Person sy'n codi pryderon, honiadau neu amheuan sylweddol yn ddiwyll ynghylch amgylchiadau, sefyllfaoedd neu ymddygiad pobl eraill sy'n debygol o roi diogelwch neu les plentyn mewn perygl.

Datganiad o Ddiben

Dogfen y mae ei hangen o dan Reoliadau ac sy'n diffinio amcanion a darpariaeth les yr ysgol, ac sy'n ymdrin â'r materion hynny sy'n cael eu diffinio yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Dianc

Absenoldeb plentyn o'r ysgol heb awdurdod – e.e. rhedeg i ffwrdd neu fethu â dychwelyd i'r ysgol ar ôl taith.

Disgrifiad Swydd

Datganiad ysgrifenedig, cytûn a chyfoes o brif dasgau a chyfrifoldebau aelod staff yn ei swydd yn yr ysgol, gan gynnwys diffiniad cyffredinol o'u rôl ar person y maent yn atebol iddo.

Dortur

Unrhyw ystafell sy'n cael ei defnyddio fel ystafell wely gan ddisgybl preswyl.

Dril Tân

Cychwyn larwm tân ar brawf ac ymarfer y cynllun i symud plant o'r adeilad o dan sylw i fan ymgynnull diogel, gan nodi unrhyw faterion y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn gwella cyflymder ac effeithlonrwydd unrhyw symudiad o'r fath.

Eiriolydd

Person sy'n cynorthwyo plentyn i gyflwyno ei sylwadau neu i bledio achos ar ei ran.

Gofal Agos

Cymorth neu oruchwyliaeth gorfforol ar gyfer plentyn sy'n cynnwys gweld corff y plentyn a fyddai fel rheol wedi'i ddilledu, cyffwrdd ag ef neu gysylltu ag ef mewn ffordd arall, oherwydd anabledd neu anghenion gofal y plentyn – e.e. cymorth gyda mynd i'r toiled, golchi, gwisgo neu ddadwisgo, neu roi meddyginiaeth sy'n golygu gwneud y pethau hyn.

Gofal Personol

Rhoi cymorth unigol i blentyn, gan gynnwys cymorth gyda gweithrediadau corfforol a gofal agos.

Gwarcheidwaid Cyfreithiol

Personau heblaw rhieni naturiol plentyn y mae ganddynt gyfrifoldeb statudol rhiant ar gyfer y plentyn o dan y Ddeddf Plant. Nid yw'n cynnwys 'gwarcheidwaid addysgol' sy'n cael eu trefnu gan rai rhieni a rhai ysgolion i ddod yn gyfeillion i blant neu i'w lletya, e.e. yn ystod gwyliau'r ysgol; nid oes gan y rhain statws cyfreithiol na chyfrifoldeb statudol rhiant.

Gweithgareddau Risg-uchel

Gweithgareddau ar gyfer disgyblion sy'n peri peryglon sylweddol neu anarferol i ddiogelwch neu les disgyblion, sy'n gofyn am asesiad risg a mesurau diogelwch cadarnhaol, ond sydd ynghlwm mewn ffordd resymol wrth weithgaredd gwerth chweil.

Gweithiwr Allweddol

Aelod o staff yr ysgol â chyfrifoldeb penodol am les plentyn unigol ac am roi cyfarwyddyd a chymorth iddo.

Gweithrediadau Corfforol

Defnyddio'r toiled, glanhau personol, ymolchi, cael cawod, defnyddio'r baddon, gwisgo, dadwisgo, glanhau dannedd, bwyta ac anghenion personol beunyddiol tebyg.

Gwiriadau Recriwtio Staff

Gwiriadau gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol y mae eu hangen i sicrhau nad yw'n hysbys bod ymgeiswyr sydd i gael cysylltiad rheolaidd â phlant yn bersonau anaddas ar gyfer cysylltiad o'r fath.

Gwneud iawn

Mesur neu gosb ddisgyblaethol lle disgwylir i'r plentyn 'wneud iawn' neu ad-dalu unigolyn neu'r ysgol am ganlyniadau camau annerbyniol neu niwed y maent wedi'i gwneud. Mae'n ddewis arall yn lle sancsiynau mwy artiffisial, ond dylai fod yn rhesymol, yn ymarferol ac yn gymesur i'r camau o dan sylw bob amser.

Gwrandawydd Annibynnol

Person a benodir gan yr ysgol, ond nad yw fel arall ar staff yr ysgol, fel rhywun y gall disgyblion gysylltu ag ef i gael cymorth a chyngor o'r tu allan ynghylch problemau personol neu bryderon yn yr ysgol.

Lleoliad

Y cytundeb i blentyn fod yn bresennol mewn man penodol a byw yno – e.e. yr ysgol.

Lles

Bodloni anghenion corfforol, diogelwch, personol, emosiynol ac ysbrydol rhesymol pob plentyn unigol, rhoi cymorth a chyfarwyddyd iddynt yn ôl yr angen, a galluogi datblygiad normal y plentyn ar gyfer y dyfodol a'i foddhad yn y presennol, gan gymryd i ystyriaeth oedran, nodweddion a dymuniadau'r plentyn. [Sylwer o dan Ddeddf Plant 1989, gwahaniaethir rhwng lles ac anghenion a chymorth addysgol neu academaidd, er y gall lles gynnwys materion addysgol mewn cyd-destunau eraill].

Lletya (plentyn)

Rhoi i blentyn (fel arfer ond nid bob amser i un o ddisgyblion yr ysgol) lety dros nos ar safle'r ysgol, neu drefnu llety i blentyn yn rhywle arall heblaw ar safle'r ysgol (e.e. mewn tŷ llety, hostel neu yng nghartref aelod o staff yr ysgol).

Meddyginiaeth Aelwyd

Meddyginiaethau sy'n addas i blant (megis poenladdwyr priodol) y gellir eu prynu 'dros y cownter' heb bresgripsiwn.

Meddyginiaeth Di-bresgripsiwn

Meddyginiaethau sy'n addas i blant (megis poenladdwyr priodol) y gellir eu prynu 'dros y cownter' heb bresgripsiwn.

Mesur Rheoli

Dull sy'n cael ei ddefnyddio i sicrhau bod plant yn ymddwyn mewn ffordd dderbyniol, gan gynnwys goruchwyliaeth, cyfarwyddyd, gwobrau, ataliad corfforol a mesurau neu gosbau disgyblaethol.

Metron

Aelod o staff yr ysgol nad yw'n addysgu (a all fod yn nyrs hefyd neu fel arall) gyda dyletswyddau preswyllo sydd fel arfer yn cynnwys dyletswyddau lles, dyletswyddau domestig, dyletswyddau goruchwyllo a dyletswyddau gofal iechyd o fewn tŷ neu uned breswyl.

Myfyriwr Blwyddyn Fwlch

Person sy'n gweithio fel aelod iau o staff ysgol yn y cyfnod yn union ar ôl ymadael â'u haddysg uwchradd eu hunain (yn aml am flwyddyn cyn dechrau addysg uwch), ac yn aml o dramor.

Mynediad Sylweddol heb Oruchwyliaeth (i ddisgyblion)

Pan fydd oedolyn yn cael cysylltiad rheolaidd neu estynedig â disgyblion, neu fynediad i lety'r disgyblion sy'n rhoi cyfle ar gyfer cysylltiad o'r fath, heb fod oedolyn arall sy'n gyfrifol am les y disgyblion ac am eu goruchwyllo yn bresennol.

Niwed Sylweddol

Unrhyw niwed corfforol, rhywiol neu emosïynol, unrhyw esgeulustod, damwain neu anaf sy'n ddigon difrifol i effeithio'n andwyol ar ddatblygiad a chynnydd disgwylidig neu normal y plentyn a'i fwynhad disgwylidig neu normal mewn bywyd.

Nyrs

Person gyda chofrestriad a chymhwyster cyfredol i ymarfer fel nyrs yn y DU.

Patrolau Diogelwch

Defnyddio aelod o staff yr ysgol, neu aelod staff o dan gontract, i gynyddu diogelwch y disgyblion drwy fynd ar batrôl trwy diroedd neu safle'r ysgol, gan dderbyn cyfrifoldeb yn aml am sicrhau bod drysau, pyrth a ffenestri wedi'u cau a'u cloi yn ôl yr angen.

Pennaeth

Y person a chanddo ofal ysgol, sy'n dwyn y teitl Pennaeth, Prifathro, Prifathrawes, Penadur, Rheolwr yr ysgol neu deitl cyfatebol.

Person sy'n rhoi Cymorth Cyntaf

Person sy'n meddu ar gymhwyster cyfoes i roi cymorth cyntaf, sef cymhwyster sy'n cael ei roi gan gorff cydnabyddedig, a hwnnw'n berson sydd wedi'i ddynodi i roi cymorth cyntaf i ddisgyblion os oes angen.

Pwyllgor Amddiffyn Plant y Rhanbarth

Grŵp a sefydlwyd i benderfynu ar y polisiau a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn ynghylch amddiffyn plant mewn ardal benodol.

Rhiant

Yn ôl y gyfraith, rhywun â chyfrifoldeb cyfreithiol rhiant (fel y'i diffinnir yn Neddf Plant 1989) dros blentyn; fel arfer rhiant biolegol y plentyn, ond gall pobl eraill gaffael cyfrifoldeb rhiant ac nid oes gan bob rhiant biolegol gyfrifoldeb rhiant.

Sanctsiynau

Unrhyw ganlyniadau negyddol sy'n cael eu cymhwyso ar gyfer ymddygiad annerbyniol – e.e. cosbau, colli breintiau neu ddyletswyddau sydd i'w cyflawni.

Sefydlu

Hyfforddiant neu gyfarwyddyd cychwynnol sy'n cael ei roi wrth ddechrau cael rhan ym mywyd preswyl ysgol – cyfarwyddyd (e.e. gan ddisgybl profiadol) i ddisgybl newydd wrth iddo gyrraedd yr ysgol; hyfforddiant cychwynnol ar bolisiau ac arferion preswyl a gofalu ar gyfer aelod newydd o'r staff.

Seremoni Dderbyn

Traddodiad neu seremoni sy'n cael ei gosod ar ddisgyblion newydd wrth iddynt gyrraedd ysgol, fel arfer gan ddisgyblion sefydlog, sy'n debygol o achosi poen, pryder neu waradwydd.

Staff Asiantaeth

Staff nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr ysgol, ond sy'n cael eu darparu gan asiantaeth sy'n eu cyflogi ac sy'n contractio i ddarparu staff am gyfnod penodol i'r ysgol.

Staff Atodol

Staff sy'n gweithio yn yr ysgol mewn swyddi heblaw rhai addysgu a gofalu, megis staff domestig, glanhau, arlwy, cynnal-a-chadw a staff sy'n gofalu am diroedd, a gyrwyr.

Staff Contract

Staff nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr ysgol, ond gan gcontractiwr sy'n gwneud gwaith yn yr ysgol o dan gcontract gyda'r ysgol; e.e. staff glanhau, arlwyo, adeiladu, gyrru neu gynnal-a-chadw contractiwr allanol sy'n gweithio yn yr ysgol neu ar ei rhan.

Stoc (o feddyginiaeth)

Meddyginiaeth sy'n cael ei chadw at ddefnydd cyffredinol ar gyfer unrhyw blentyn y mae arno ei angen, yn hytrach na meddyginiaeth ragnodedig sy'n cael ei chadw ar gyfer y plentyn y cafodd ei rhagnodi ar ei gyfer yn unig.

Swyddfa Cofnodion Troseddol

Corff cenedlaethol sy'n cynnal gwiriadau heddlu i ganiatáu i asesiad gael ei wneud (e.e. gan ysgol) ar addasrwydd person i weithio gyda phlant. Mae lefelau gwirio gwahanol ar gyfer lefelau gwahanol o gysylltiad rheolaidd â phlant a chyfrifoldeb am eu goruchwylio.

Sylwadau

Cŵynion, pryderon neu faterion pwysig sy'n cael eu codi gyda'r ysgol neu awdurdod lleoli gan neu ar ran plentyn ynglŷn â'i ofal neu ei les.

Tŷ

Adeilad, neu ran o adeilad, sy'n lletya grŵp diffiniedig o ddisgyblion mewn ysgol, y mae un neu ragor o'r staff dynodedig yn gofalu amdanynt.

Tŷ Llety

Llety sy'n cael ei drefnu gan yr ysgol ar gyfer disgybl y tu allan i safle'r ysgol (e.e. mewn cartref teuluol, mewn fflat myfyriwr neu gyda landlord).

Tystysgrif Ymddygiad Da

Dogfen sydd ar gael o rai gwledydd (o dan enw gwahanol weithiau) sy'n cadarnhau nad oes gan ei deiliad unrhyw gollfarn troseddol yn ei erbyn yn ei famwlad; os yw ar gael mae'n ofynnol fel rhan o'r broses wirio wrth recriwtio staff megis myfyrwyr blwyddyn fwlch sy'n cael eu recriwtio o dramor.

Uned

Adeilad, neu ran o adeilad, sy'n lletya grŵp diffiniedig o ddisgyblion mewn ysgol, y mae un neu ragor o staff dynodedig yn gofalu amdanynt.

Ymchwiliad Amddiffyn Plant

Ymchwiliad i niwed sylweddol posibl i blentyn (e.e. drwy gamdriniaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol, neu drwy esgeulustod), sy'n cael ei gynnal gan awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989. Gall gynnwys ymchwiliadau gan yr heddlu neu ymchwiliad gan yr NSPCC.

Ysgol Arbennig Breswyl

Ysgol sydd wedi'i dynodi'n ysgol arbennig gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac sy'n lletya disgyblion dros nos, gan gynnwys ysgol arbennig breswyl a gynhelir neu ysgol o'r fath na chynhelir mohoni, neu ysgol annibynnol breswyl sy'n lletya plant ag anghenion addysgol arbennig yn gyfan gwbl neu'n bennaf. Nid yw'r diffiniad yn cynnwys ysgolion preswyl y mae'n ofynnol iddynt gofrestru o dan adran 1 o Ddeddf Safonau Gofal fel cartrefi plant am eu bod yn lletya un neu ragor o blant am fwy na 295 o ddiwrnodau yn y flwyddyn yn yr ysgol neu mewn llety sydd wedi'i drefnu gan yr ysgol. Felly mae'n debyg y bydd ysgolion sy'n darparu llety "52 wythnos" yn cael eu diffinio fel cartrefi plant yn hytrach nag ysgolion arbennig preswyl at ddibenion rheoli eu darpariaeth les.